

Agenda

| | |
|---------------------|---|
| Teitl y cyfarfod: | Cyfarfod Bwrdd CNC – Cyfarfod Cyhoeddus |
| Dyddiad y cyfarfod: | Dydd Mercher 25 Medi 2024 |
| Amser y cyfarfod: | 14:00 – 17:00 |
| Lleoliad: | Microsoft Teams |

| Amser | Eitem |
|----------|---|
| 14:00 | Eitem 1. Agor y cyfarfod |
| 5 munud | <ul style="list-style-type: none">• Croeso• Datganiad Buddiannau• Egluro trefn y cyfarfod <p>Noddwr a Chyflwynydd: Syr David Henshaw (Cadeirydd)</p> <p>Crynodeb: NODI unrhyw ddatganiadau o fuddiannau</p> |
| 14:05 | Eitem 2. Adolygu Cofnodion a'r Log Camau Gweithredu |
| 5 munud | <p>2A. Adolygu Cofnodion Cyfarfod Cyhoeddus 17 Gorffennaf</p> <p>2B. Adolygu'r Log Camau Gweithredu Cyhoeddus</p> <p>Noddwr a Chyflwynydd: Syr David Henshaw (Cadeirydd)</p> <p>Crynodeb: CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod blaenorol a'r Log Camau Gweithredu</p> |
| 14:10 | Eitem 3. Y wybodaeth ddiweddaraf gan y Cadeirydd |
| 5 munud | <p>Noddwr a Chyflwynydd: Syr David Henshaw (Cadeirydd)</p> <p>Crynodeb: NODI diweddariad Cadeirydd y Bwrdd</p> |
| 14:15 | Eitem 4. Adroddiad gan y Prif Weithredwr |
| 15 munud | <p>Noddwr a Chyflwynydd: Clare Pillman, Prif Weithredwr</p> |

Crynodeb: NODI'r sefyllfa bresennol a diweddaru'r Bwrdd ar weithgareddau allweddol

Cyfeirnod papur: 24-09-B10

14:30

20 munud

Eitem 5. Adroddiadau Diweddaru y Pwyllgorau a'r Fforymau

Noddwyr a Chyflwynwyr: Cadeiryddion Pwyllgorau

- Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg – 5 Medi
 - Pwyllgor Cynghori ar Dystiolaeth
 - Pwyllgor Cyllid – 12 Medi
 - Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd
- Cyfeirnod papur: 24-09-B11**
- Pwyllgor Ystad Tir – 18 Gorffennaf
- Cyfeirnod papur: 24-09-B12**
- Pwyllgor Pobl a Chwsmeriaid –11 Medi
 - Pwyllgor Ardaloedd Gwarchoddedig

- Fforwm Rheoli Tir Cymru
- Cyfeirnod papur: 24-09-B13**
- Fforwm Pysgodfeydd Cymru
- Cyfeirnod papur: 24-09-B14**
- Fforwm Rheoli Dŵr Cymru
 - Fforwm Mynediad Cenedlaethol Cymru
- Cyfeirnod papur: 24-09-B15**
- Grŵp Galluogi'r Sector Amgylcheddol

Crynodeb: NODI'r diweddariadau gan Bwyllgorau'r Bwrdd a Fforymau CNC, mewnol ac allanol, a chyfarfodydd a gynhaliwyd

14:50

15 munud

Eitem 6. Adroddiad ar Berfformiad Cyllid

Noddwr: Rachael Cunningham, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol

Cyflwynydd: Mark Collins, Rheolwr, Tîm Cyllid Busnes 2

Crynodeb: CYMERADWYO'r sefyllfa ariannol ddiweddaraf

Cyfeirnod papur: 24-09-B17

15:05 **Eitem 7. Cynllun Sero Net CNC**

30 munud Noddwyr: Ceri Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu; Sarah Jennings, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyfathrebu, Cwsmeriaid a Masnachol

Cyflwynwyr: Clive Walmsley, Uwch Gyngorydd Arbenigol, Newid Hinsawdd a Datgarboneiddio; Mary Lewis, Lleoedd Cynaliadwy, Rheolwr Tir a Môr

Crynodeb: CYMERADWYO Cynllun Sero Net CNC

Cyfeirnod papur: 24-09-B18

15:35 **Egwyl**

15 munud

15:50 **Eitem 8. Siarter Profedigaeth**

15 munud

Noddwr: Gareth O'Shea, Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau

Cyflwynwyr: Lyndsey Rawlinson, Pennaeth Gweithrediadau Gogledd Ddwyrain Cymru

Yn bresennol: Jeremy Parr, Pennaeth Rheoli Perygl Llifogydd a Digwyddiadau; Sarah Asbrey, Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol

Crynodeb: CYMERADWYO cytundeb CNC i'r siarter ar gyfer teuluoedd mewn profedigaeth

Cyfeirnod papur: 24-09-B06

16:05 **Eitem 9. Dangosfwrdd Perfformiad Cynllun Busnes ac Adroddiad Perfformiad Mewnol Chwarter 1**

20 munud

Noddwr a Chyflwynydd: Clare Pillman, Prif Weithredwr

Yn bresennol: Sarah Williams, Pennaeth Strategaeth Gorfforaethol a PMO; Sue Ginley, Prif Gyngorydd Arbenigol, Cynllunio Corfforaethol a Pherfformiad; Bronia Bendall, Uwch Gyngorydd Arbenigol, Strategaeth a Datblygiad Corfforaethol

Crynodeb: CYMERADWYO Dangosfwrdd Perfformiad y Cynllun Busnes ac Adroddiad Perfformiad Mewnol Chwarter 1

Cyfeirnod papur: 24-09-B19

| | |
|----------|--|
| 16:25 | Eitem 10. Eitemau i'w Cymeradwyo |
| 5 munud | a. Adroddiad Chwarter 1 Lles, Iechyd a Diogelwch Noddwr: Prys Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Datblygu Corfforaethol Crynodeb: CYMERADWYO Adroddiad Lles, Iechyd a Diogelwch ar gyfer Chwarter 1 Cyfeirnod papur: 24-09-B20 |
| | b. Datganiad Caethwasiaeth Fodern Noddwr: Sarah Jennings, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyfathrebu, Cwsmeriaid a Masnachol Crynodeb: CYMERADWYO Datganiad Caethwasiaeth Fodern CNC Cyfeirnod papur: 24-09-B21 |
| <hr/> | |
| 16:30 | Eitem 11. Eitemau er Gwybodaeth |
| 5 munud | a. Adroddiad Gwerthuso Natur a Ni Noddwr: Prys Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Datblygu Corfforaethol Crynodeb: I NODI Adroddiad Gwerthuso Natur a Ni Cyfeirnod papur: 24-09-B22 |
| <hr/> | |
| 16:35 | Eitem 12. UNRHYW FATER ARALL |
| 5 munud | |
| <hr/> | |
| 16:40 | Diwedd y cyfarfod |
| <hr/> | |
| 16:40 | Sesiwn Holi ac Ateb i'r Cyhoedd |
| 20 munud | |
| <hr/> | |
| 17:00 | Diwedd y Cyfarfod Cyhoeddus |

Cofnodion heb eu cadarnhau

| | |
|--|--|
| Teitl y cyfarfod: | Cyfarfod Bwrdd CNC – Cyfarfod Cyhoeddus |
| Lleoliad: | Microsoft Teams |
| Dyddiad y cyfarfod: | 17 Gorffennaf 2024 |
| Aelodau'r Bwrdd yn bresennol: | Yr Athro Steve Ormerod, Dirprwy Gadeirydd Clare Pillman, Prif Weithredwr Geraint Davies Dr Pete Fox Yr Athro Calvin Jones Lesley Jones Yr Athro Rhys Jones Kath Palmer Helen Pittaway Dr Rosie Plummer |
| Aelodau o'r Tîm Gweithredol yn bresennol: | Ceri Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu Prys Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Datblygu Corfforaethol Sarah Jennings, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyfathrebu, Cwsmeriaid a Masnachol Gareth O'Shea, Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau Victoria Rose-Piper, Pennaeth Gwasanaethau Cymorth Busnes ac Adfywio/Pennaeth Trawsnewid Busnes, yn dirprwyo ar ran Rachael Cunningham, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol |
| Mynychwyr yn bresennol: | Phil Williams, Pennaeth Llywodraethu ac Ysgrifennydd y Bwrdd (Pob eitem) Rob Bell, Pennaeth Cyllid, Eitem 6 Sarah Williams, Pennaeth Strategaeth Gorfforaethol a PMO, Eitem 7 Sue Ginley, Cynghorydd Arbenigol Arweiniol, Cynllunio Corfforaethol a Pherfformiad, Eitem 7 |
| Arsylwyr CNC yn bresennol: | Dim |

| | |
|---|--|
| Arsylwyr Cyhoeddus yn bresennol: | Polly Ernest Elizabeth Mullan Maggie Young Kim Waters, Undeb Afonydd Cymru Jim Ralph Aelodau ychwanegol o'r cyhoedd |
| Ymddiheuriadau: | Syr David Henshaw Mark McKenna Rachael Cunningham, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol |
| Ysgrifenyddiaeth: | Natalie Williams, Dirprwy Ysgrifennydd y Bwrdd ac Arweinydd Tîm Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd Jocelyn Benger, Tîm Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd |
| Datganiadau o Ddiddordeb: | <ul style="list-style-type: none"> • Dr Rosie Plummer - Aelod Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro - rhyngweithiadau eang gan gynnwys Withyhedge gyda CNC gan gynnwys dynodiad tirwedd Parc Cenedlaethol a pharthau gwarchod gan gynnwys afonydd ACA, parthau morol, cydweithredwr a derbynnydd grantiau amrywiol • Yr Athro Steve Ormerod – Cadeirydd y Grŵp Cyngori ar Wyddoniaeth ac Aelod o'r Bwrdd Marchnadoedd Amgylcheddol newydd; Cadeirydd y Grŵp Cyngori ar Adar sy'n Bwyta Pysgod; Is-lywydd RSPB • Geraint Davies – Mentor gyda Cyswllt Ffermio; Cysylltai Canolfan Ymchwil Ucheldir Pwllpeiran • Yr Athro Rhys Jones – rhan o brosiect ymchwil wedi'i ariannu gyda Phrifysgol Coventry a fydd yn archwilio datblygiad a gweithrediad cynnar y Cynllun Ffermio Cynaliadwy • Yr Athro Calvin Jones – Ysgol Busnes Caerdydd a gyflogir gan Lywodraeth Cymru i edrych ar fodelau ariannu ar gyfer morlynnoedd llanw posibl yng Nghymru |

Eitem 1. Agor y cyfarfod

1. Agorodd y Dirprwy Gadeirydd y cyfarfod, croesawodd bawb, ac eglurodd drefn y cyfarfod. Nodwyd datganiadau o ddiddordeb ac ymddiheuriadau fel y'u gwelir uchod.

Eitem 2. Adolygu Cofnodion a'r Log Camau Gweithredu

Eitem 2A. Adolygu Cofnodion o Gyfarfod 23 Mai

2. Cafodd cofnodion cyfarfod cyhoeddus y Bwrdd ar 23 Mai eu hadolygu a'u cytuno gyda mân ddiwygiad.

Eitem 2B. Adolygu'r Log Camau Gweithredu

3. Cafodd y Log Camau Gweithredu ei adolygu a'i nodi.

Eitem 3. Y wybodaeth ddiweddaraf gan y Cadeirydd

4. Tynnodd y Dirprwy Gadeirydd sylw at ddigwyddiad llwyddiannus CNC a gynhaliwyd yn y Senedd ar 5 Mehefin i nodi Diwrnod Amgylchedd y Byd. Roedd hyn wedi cynnwys diwrnod llawn o ymgysylltu ag Aelodau'r Senedd ac arddangosiad ar brosiect partneriaeth Natur am Byth a gafodd groeso da.

Eitem 4. Adroddiad gan y Prif Weithredwr

5. Rhoddodd y Prif Weithredwr y wybodaeth ddiweddaraf am eitemau yn ychwanegol at yr Adroddiad ysgrifenedig.
6. Roedd canlyniadau dau archwiliad allanol mawr wedi dod i law - Cynllun Sicrwydd Coetir y DU (UKWAS) a'r System Rheoli Amgylcheddol (EMS). Roedd disgwyl am y canlyniadau ffurfiol ond roedd y ddau beth yn gadarnhaol. Nid oedd unrhyw Geisiadau Camau Unioni (CARs) o bwys wedi'u nodi yn archwiliad UKWAS. Roedd y CAR bach o'r archwiliad blaenorol wedi'i gau ac roedd pedwar CAR bach newydd wedi'u codi, ynghyd ag un Arsylwad newydd; roedd un Arsylwad presennol yn parhau i fod ar agor. Byddai'r manylion llawn yn cael eu darparu pan gâi'r gwaith papur terfynol ei dderbyn oddi wrth y Gymdeithas Pridd, a oedd wedi aildendro'n llwyddiannus fel archwilwyr UKWAS CNC. Roedd yr archwiliad EMS ar ISO 14001 wedi ymweld ag amryw o safleoedd CNC ac ni chanfuwyd unrhyw achos mawr neu fach o ddiffyg cydymffurfio, ac ni nodwyd unrhyw gyfleoedd i wella ymhellach.
7. Cafwyd diweddariad ar faterion dŵr. Roedd penderfyniad Ofwat bellach allan ar gyfer ymgynghori; roedd hyn wedi'i ohirio oherwydd y saib cyn yr etholiad. Roedd hyn yn nodi'r cynigion ar gyfer biliau cwmnïau dŵr a'u gwariant ar gyfer y Cyfnod Rheoli Asedau (AMP) pum mlynedd o 2025. Y gwariant arfaethedig gan Dŵr Cymru / Welsh Water (DCWW) oedd £5.5bn dros y cyfnod, ac roedd £1.3bn o hyn ar gyfer Cynllun yr Amgylchedd Naturiol (NEP). Amlygwyd bod hyn yn gynnydd sylweddol dros gynigion cychwynnol. Nodwyd bod Ofwat yn erlyn holl gwmnïau dŵr Cymru a Lloegr ar eu perfformiad ar drin dŵr gwastraff.
8. Roedd corff hyd braich newydd Llywodraeth Cymru (LIC) ar gyfer ynni, Trydan Gwyrdd Cymru, wedi cael ei lansio. Byddai Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth (MoU) yn cael ei ddatblygu ar sut y byddai CNC yn gweithio gyda Trydan wrth symud ymlaen.

9. Nododd aelodau'r Bwrdd y symudiad i System Rhybuddio a Hysbysu am Lifogydd (FWIS) newydd CNC ar gyfer Cymru a holwyd ynghylch y dull o fonitro'r defnydd o'r gwasanaeth. Eglurodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu (EPP) bod y defnydd o'r FWIS yn cael ei asesu a bod hyn yn cael ei gynnwys fel rhan o'r broses ôl-drafod yn dilyn digwyddiadau. Roedd gwybodaeth hefyd wedi cael ei chasglu gan y tîm a oedd yn ymgysylltu â chymunedau yr effeithiwyd arnynt gan ddigwyddiadau. Roedd y wybodaeth wedi cael ei defnyddio i lywio'r gwaith o ddatblygu'r FWIS newydd.
10. Nodwyd Deddf Caffael Cymru gan aelodau'r Bwrdd a holodd ynghylch gwreiddio Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy (SMNR) a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol o fewn y Ddeddf Gaffael newydd. Eglurodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Cyfathrebu, Cwsmeriaid a Masnachol (CCC) fod y Ddeddf newydd yn mynd y tu hwnt i werth cymdeithasol. Amlygwyd ymrwymiad CNC i gyflawni Amcanion Llesiant (WBOs) y Cynllun Corfforaethol, gan gynnwys gweithio gyda phartneriaid drwy'r fframweithiau caffael ar gamau a fyddai'n cael eu cymryd i gefnogi natur, yr hinsawdd a lleihau llygredd.
11. Holodd aelodau'r bwrdd ynghylch y dull o roi adroddiadau gorfodi chwarterol. Cydnabuwyd y byddai oedi angenrheidiol gyda rhai adroddiadau oherwydd rhesymau cyfreithiol; fodd bynnag, byddai dadansoddiad o dueddiadau yn cael ei groesawu. Trafododd aelodau'r Bwrdd rôl allweddol Rheoleiddio yn y WBO ar leihau llygredd a gofynasant am gyfleoedd pellach i'r Bwrdd drafod ynghylch y mater hwn. Eglurodd Cyfarwyddwr Gweithredol EPP fod y strwythurau llywodraethu presennol yn cael eu hadolygu er mwyn sicrhau eu bod yn cyd-fynd â WBOs y Cynllun Corfforaethol. Cadarnhaodd y Prif Weithredwr y byddai'r Adroddiad Rheoleiddio Blynyddol yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd cyn ei gyhoeddi ar y wefan.

CAM GWEITHREDU: Adroddiad Rheoleiddio Blynyddol i'w gyflwyno i'r Bwrdd

Eitem 5. Adroddiadau Diweddarau y Pwyllgorau a'r Fforymau

12. Rhoddodd Kath Palmer, Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg (ARAC) ddiweddariad ar y cyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Mehefin, gan nodi cynnwys y papur. Craffwyd ar yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon. Derbyniwyd nifer o adroddiadau Archwilio Mewnol, ac ystyriwyd eu canlyniadau. Disgrifiwyd goruchwyliaeth ARAC o gamau allweddol ar y gwaith ar reoli risg ac aliniad y Gofrestr Risg Strategol i'r Cynllun Corfforaethol. Roedd y gwaith llywodraethu ar adolygu Pwyllgorau'r Bwrdd ac alinio risgiau a sicrwydd wedi cael blaenoriaeth. Adolygwyd camau archwilio, gan gydnabod yr adnoddau cyfyngedig. Roedd y Bwrdd wedi derbyn Adroddiad Blynyddol ARAC yn y cyfarfod preifat. Llongyfarchwyd y tîm Archwilio Mewnol am eu llwyddiant wrth ennill gwobr y DU yn y Gwobrau Archwilio a Risg blynyddol.
13. Nododd yr Athro Steve Ormerod, Cadeirydd y Pwyllgor Cynghori ar Dystiolaeth (EAC) y byddai'r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar 22 Hydref.
14. Diweddarodd Helen Pittaway, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid (FC) y Bwrdd ar y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Mehefin. Cymerwyd bod y papur wedi'i ddarllen. Craffwyd ar

berfformiad cyllid, a derbyniwyd diweddariad ar y Cynllun Cyllideb a Busnes 2024-25. Cefnogodd FC gymeradwyaethau ar dri chais adran 83 a newidiadau arfaethedig i fecanweithiau cyllido. Ystyriwyd cytundebau gweithredu cronfeydd dŵr, a byddai Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn adrodd yn ôl i FC ar hyn ym mis Medi. Cafwyd adborth ar yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon drafft ac ystyriwyd y camau y cytunwyd arnynt ar yr Adolygiad Cyfalaf Llifogydd. Darparwyd diweddariad ar CNC2030, a chytunwyd ar ddangosfwrdd er mwyn i FC fonitro cynnydd.

15. Rhoddwyd diweddariad i'r Bwrdd gan Dr Pete Fox, Cadeirydd y Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd (FRMC). Nodwyd cynnwys y papur. Roedd fformat cyfarfod mis Gorffennaf wedi newid oherwydd pwysau ar ddyddiaduron a byddai'r cyfarfod nawr yn cael ei gynnal drwy ohebiaeth. Derbyniwyd diweddariad ar y Rhaglen Cyfalaf Rheoli Perygl Llifogydd; roedd y Pwyllgor yn falch o nodi bod y rhagolygon yn agos at y gwariant gwirioneddol. Gofynnwyd i FRMC gymeradwyo papur newid ar gyfer Cynllun Llifogydd Stryd Stephenson. Roedd FC wedi cefnogi rhoi cymeradwyaeth yn flaenorol a nodwyd y cynnydd mewn gwariant a'r rhesymau dros hyn. Cyflwynwyd yr Achos Amlinellol Strategol ar gyfer Cynllun Rheoli Llifogydd Pwllheli i'w gymeradwyo; byddai FRMC yn edrych ar y potensial ar gyfer cynllun sy'n gweithio'n dda o ran costau a manteision.
16. Rhoddwyd diweddariad i'r Bwrdd gan yr Athro Calvin Jones, Cadeirydd Pwyllgor yr Ystâd Tir (LEC). Byddai'r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar 18 Gorffennaf. Cafodd yr achrediad UKWAS newydd ei nodi a'i groesawu.
17. Fe wnaeth Helen Pittaway, ar ran Cadeirydd y Pwyllgor Pobl a Chwsmeriaid (PCC), roi diweddariad i'r Bwrdd ar y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Mehefin. Cymerwyd bod y papur wedi'i ddarllen. Craffwyd ar yr Adroddiad Blynyddol Llesiant, Iechyd a Diogelwch a thrafodwyd y cynllun rhanddeiliaid gwleidyddol ynghyd â nifer o adroddiadau Pwyllgor eraill fel y nodwyd yn y papur. Ystyriwyd y camau llywodraethu a adrodd ynglŷn â CNC2030.
18. Rhoddodd Dr Rosie Plummer, Cadeirydd y Pwyllgor Ardaloedd Gwarchoddedig (PrAC), ddiweddariad i'r Bwrdd ar gyfarfodydd diweddar PrAC. Roedd y cyfarfod blynyddol ar yr 28^{ain} wedi ymdrin â materion amrywiol gan gynnwys y camau dilynol ar ôl yr archwiliad dwfn yng nghyfarfod Bwrdd mis Mai ar WBO1: Mae Natur yn Gwella. Derbyniwyd Adroddiad Llonyddwch Cymru gyfan, ynghyd â'r wybodaeth ddiweddaraf am y Rhaglen Safleoedd Gwarchoddedig a'r gwaith ar y Parc Cenedlaethol arfaethedig. Cynhaliwyd ymweliad safle blynyddol PrAC ar 11 Mehefin yng Ngharn Owen, sy'n safle o bwys byd-eang o ran cen ac yn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) sydd â chysylltiadau pwysig â hanes a threftadaeth ddiwylliannol Cymru. Darparwyd diweddariad ar y cyfarfod hysbysu SoDdGA a gynhaliwyd ar 11 Gorffennaf. Clywodd y cyfarfod hysbysu wrthwynebiadau cyhoeddus mewn perthynas â hysbysu safle coetir yng Nghoedwig Dyfi o ddiddordeb o ran cennau a bryoffytau. Cydnabuwyd y materion a godwyd gan dirfeddianwyr. Cadarnhaodd PrAC yr hysbysiad o'r safle fel SoDdGA. Byddai ymarfer gwersi a ddysgwyd yn digwydd ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol.
19. Trafododd aelodau'r Bwrdd y cyfarfod i hysbysu'r SoDdGA ac ystyriwyd natur y gwrthwynebiadau cyhoeddus. Roedd y materion a godwyd yn cynnwys pryderon cyfredol gyda'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS), pryderon ariannol ynghylch

Cytundebau Rheoli Tir nad ydynt yn cael eu cefnogi, a materion diwylliannol. Amlygwyd bod disgwyl canlyniadau'r ymgynghoriad SFS ar gyfer perchnogion safleoedd gwarchoddedig. Cydnabuwyd rôl bwysig tîrffeddiannwyr wrth gynnal a meithrin safleoedd gwarchoddedig ac roedd aelodau'r Bwrdd yn cydnabod balchder a gwerthfawrogiad perchnogion y tir am y safleoedd sydd yn eu perchnogaeth. Roedd pwyntiau pwysig i CNC eu datblygu i annog ymgysylltu a chydweithio.

20. Holwyd ynghylch y broses flaenoriaethu ar hysbysu safleoedd SoDdGA. Cadarnhaodd aelodau PrAC fod cyfrifoldeb cyfreithiol ar CNC i hysbysu safle os oedd yn bodloni meini prawf penodol. Disgrifiwyd y cydbwysedd o ran ystyriaethau. Eglurwyd bod hysbysiad yn darparu offer i ddiogelu safleoedd mewn ffordd wahanol, er enghraifft drwy'r broses gynllunio.
21. Rhoddodd yr Athro Rhys Jones, Cadeirydd Fforwm Rheoli Tir Cymru (WLMF), ddiweddariad i'r Bwrdd. Roedd y drafodaeth yn y cyfarfod diweddar wedi canolbwyntio ar y rhaglen adfer afonydd, cynlluniau rheoli basnau afonydd, y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr a'r pwyslais fel rhan o hynny ar sianeli heb eu haddasu a thensiwn gyda rhannau eraill o'r sefydliad. Cydnabuwyd bod CNC yn sefydliad cymhleth a chynhaliwyd trafodaethau ar ble roedd y tensiynau hynny'n datblygu, gyda gwahanol rannau o'r sefydliad yn tynnu i gyfeiriadau gwahanol o bryd i'w gilydd.
22. Rhoddwyd diweddariad i'r Bwrdd gan yr Athro Steve Ormerod, Cadeirydd Fforwm Pysgodfeydd Cymru (WFF) a Fforwm Rheoli Dŵr Cymru (WWMF). Nid oedd WWMF wedi cyfarfod ers y cyfarfod Bwrdd diwethaf. Cyfarfu'r CBFF ar 27 Mehefin. Cafwyd cyflwyniad ar ddigwyddiadau, gan nodi disgwyliadau'r cyhoedd a gofynion o ran gwaith, a sut y gallai'r rhain dynnu staff oddi wrth faterion strategol. Rhoddwyd diweddariad ar waith parhaus y Grŵp Cynghori ar Adar sy'n Bwyta Pysgod, a oedd yn cynnwys gwybodaeth am gynnydd i ailgyflwyno eryrod i Gymru. Disgrifiwyd y dystiolaeth ar y dimensiwn naturiol posibl mewn perthynas ag ysglyfaethwyr a'r gwaith ar gefnogi poblogaethau salmonidau sy'n dirywio.
23. Rhoddwyd diweddariad i'r Bwrdd gan Geraint Davies, Cadeirydd Fforwm Mynediad Cenedlaethol Cymru (NAFW). Roedd y cyfarfod diweddar yn Aberystwyth wedi derbyn diweddariad ar reoli basnau afonydd gan gynnwys rheoli tir. Croesawyd y diweddariad gan Jan Newman o DCWW. Roedd hyn yn disgrifio'r canolfannau iechyd a lles ar ystâd DCWW a oedd yn cefnogi cysylltu pobl â natur. Ystyriwyd aelodaeth NAFW a chytunwyd ar gais am aelodaeth o'r Ymgrych dros Barciau Cenedlaethol.

Eitem 6. Adroddiad ar Berfformiad Cyllid

Cyflwynydd: Rob Bell, Pennaeth Cyllid

24. Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid yr eitem a rhoddodd drosolwg o'r papur, gan nodi bod yr Adroddiad yn dangos y sefyllfa ddiwedd mis Mai. Roedd ET ac FC wedi craffu ar hyn. Tynnwyd sylw at y pwyntiau allweddol. Roedd y gwariant yn unol â'r proffil ar wahân i'r gyllideb Stiwardiaeth Tir a oedd y tu ôl i'r proffil. Roedd incwm yn unol â'r proffil heblaw am bren oedd uwchlaw'r rhagolygon oherwydd perfformiad cryf ym mis Ebrill, felly gellid ail-gynnal rhagolygon. Atgoffwyd y Bwrdd am y trefniant incwm pren gyda LIC. Disgrifiwyd meysydd risg. Rhoddwyd diweddariad i FC ar y targed arbed cyflog o

£9.3m, gyda £7.8m i'w wireddu erbyn diwedd y flwyddyn, gan adael balans o £1.5m yn weddill i'w ariannu drwy'r gyllideb wrth gefn. Cydnabuwyd y problemau gyda'r rheolaethau recriwtio parhaus ond cydnabuwyd bod angen y rhain. Disgrifiwyd y targedau a'r heriau gor-raglennu ar gyfer eleni ar gyfer y Rhaglenni Argyfwng Natur a Hinsawdd (NaCE) a Chyfalaf Llifogydd. Nodwyd y materion o ran dadfeilio, y brydles a chladin yn Nhŷ Cambria. Roedd disgwyl ymateb gan y landlord.

25. Nododd Helen Pittaway fel Cadeirydd FC ei bod yn gynnar yn y flwyddyn ariannol ond bod rheolaethau tynn ar waith. Rhagwelwyd mwy o eglurder ar dueddiadau ym mis Medi.
26. Cymeradwyodd y Bwrdd y newidiadau i'r rhagolwg diweddaraf, o £267.9m i £268.9m a nododd y perfformiad ariannol hyd at ddiwedd mis Mai 2024.

CYMERADWYWYD: Y newidiadau i'r rhagolwg diweddaraf o £267.9m i £268.9m

Eitem 7. Dangosfwrdd Perfformiad Cynllun Busnes ac Adroddiad Diwedd y Flwyddyn Perfformiad Mewnol 2023-24

Noddwr a Chyflwynydd: Clare Pillman, Prif Weithredwr

27. Cyflwynodd y Prif Weithredwr ddangosfwrdd Perfformiad y Cynllun Busnes ac Adroddiad Diwedd y Flwyddyn Perfformiad Mewnol 2023-24, gan nodi y byddai set o ddangosyddion wedi'u diwygio ychydig yn cael eu cyflwyno ar gyfer y flwyddyn ariannol bresennol. Nododd Adroddiad Dangosfwrdd Perfformiad y Cynllun Busnes y statws RAG (Coch Ambr Gwyrdd) canlynol ar gyfer y mesurau ar ddiwedd y flwyddyn: 1 Coch, 6 Ambr, 15 Gwyrdd. Fel y trafodwyd yn flaenorol, roedd perfformiad wedi cael ei effeithio gan rewi'r broses recriwtio a heriau cyllidebol nad oeddent yn ymwneud â staff. Nodwyd hefyd, gan fod y mesurau'n Dangosyddion Perfformiad Allweddol (KPIs), bod cydweithwyr yn debygol o ganolbwyntio ar y meysydd hanfodol hyn, felly gallai hefyd fod effeithiau dilynol mewn mannau eraill. Rhannwyd y map gwres ar symudiad y statws RAG drwy'r flwyddyn.
28. Disgrifiwyd y materion yn ymwneud â'r mesur Coch. Roedd materion o ran staffio a'r newidiadau diweddar i gaffael wedi arwain at statws Coch ddiwedd y flwyddyn ar gyfer y mesur 'datblygu fflyd ag allyriadau isel a darparu ystâd adeiledig ag allyriadau isel sy'n gallu addasu i'r hinsawdd'. Wrth symud ymlaen, byddai amserlen bum mlynedd yn cael ei llunio i ddatblygu fflyd allyriadau isel. Nodwyd y chwe mesur Ambr. Roedd yr adolygiad monitro dŵr croyw wedi arafu oherwydd effaith materion staffio, ac roedd datganiad strategol wedi'i rannu gyda rhanddeiliaid allanol yn WWMF. Roedd y mesur ar gyfer 'cyflwyno rhaglenni i adolygu gofynion ansawdd dŵr statudol' yn Ambr fel y nodwyd yn Chwarter 3 (Ch3). Cafodd gwaith caled y staff ei gydnabod. Amlygwyd bod y mesur o ran 'camau blaenoriaeth ar safleoedd gwarchodedig ledled Cymru i wella cyflwr nodweddion' yn Wyrdd ar ddiwedd y flwyddyn. Roedd yr arian drwy Raglen Gyfalaf Rhwydweithiau Natur Llywodraeth Cymru wedi cefnogi mwy na 50% o'r gwaith ar y dangosydd hwn. Tynnwyd sylw hefyd at weithredu argymhellion a chamau gweithredu yr Adolygiad Llifogydd. Estynnwyd diolch i'r tîm Rheoli Perygl Llifogydd a'r FRMC ar y rhaglen fawr hon o waith ar ôl llifogydd 2020. Roedd hyn wedi bod yn Ambr drwy'r flwyddyn ond roedd bellach yn Wyrdd. Roedd y rhaglen bellach wedi cau a

chynhyrchwyd Adroddiad Pontio ymhellach i'r gwaith monitro parhaus drwy'r Grwpiau Busnes.

29. Disgrifiwyd Adroddiad Diwedd Blwyddyn Perfformiad Mewnol 2023-24. Nodwyd y mesurau fel: 0 Coch, 2 Ambr, 8 Gwyrdd. Amlygwyd y System Rheoli Dysgu (LMS) newydd a'i fanteision. Erbyn hyn roedd modd adrodd am absenoldebau gyda'r fethodoleg ddiwygiedig ar waith. Adroddwyd bod hyn yn Ambr ar 4% ar gyfer mis Mawrth, gan nodi mai 3.5% oedd y targed ar gyfer statws Gwyrdd. Roedd mesurau yn cael eu rhoi ar waith i gefnogi rheolwyr a staff.
30. Trafododd aelodau'r Bwrdd gynnwys yr Adroddiad. Nodwyd y drafodaeth gynharach yn y cyfarfod preifat ar yr Achos dros Newid ac effeithiau'r heriau cyllidebol ar y dangosyddion. Trafodwyd manteision yr LMS newydd. Eglurodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Datblygu Corfforaethol (CS&D) gefndir yr LMS a'r cyfleoedd yn y dyfodol ynghylch adrodd ar berfformiad ac e-recriwtio. Byddai PCC yn cael ei ddiweddarau ar hyn ond y prif ffocws ar hyn o bryd oedd cau rhai o'r risgiau iechyd a diogelwch ar ofynion dysgu.
31. Ystyriodd aelodau'r Bwrdd sut y gallai rhanddeiliaid allanol a'r cyhoedd weld yr adroddiadau perfformiad. Amlygwyd bod cynnwys y dangosyddion yn cael ei ystyried yn fanwl gan Bwyllgorau'r Bwrdd, ET a Grwpiau Busnes. Roedd gwaith yn cael ei wneud i ddatblygu adroddiadau yn y dyfodol a fyddai wedi'u targedu'n well yn unol â WBOs y Cynllun Corfforaethol. Nodwyd bod Natur a Ni bellach ar ben, ac ystyriwyd y dull o symud ymlaen ynghyd â phartneriaid allanol. Byddai darn yn gwerthuso Natur a Ni yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd. Yr uchelgais oedd cysylltu'r llinynnau allweddol â busnes fel arfer a CNC2030.

CAM GWEITHREDU: Cyflwyno gwerthusiad ar Natur a Ni i'r Bwrdd

32. Cymeradwyodd y Bwrdd Ddangosfwrdd Perfformiad y Cynllun Busnes ac Adroddiad Diwedd y Flwyddyn ar Berfformiad Mewnol 2023-24.

CYMERADWYWYD: Dangosfwrdd Perfformiad y Cynllun Busnes ac Adroddiad Diwedd y Flwyddyn ar Berfformiad Mewnol 2023-24

Eitem 8. Adroddiad Blynyddol Llesiant, Iechyd a Diogelwch 2023-24

Noddwr a Chyflwynydd: Prys Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Datblygu Corfforaethol

33. Cyflwynodd Cyfarwyddwr Gweithredol CS&D Adroddiad Diwedd y Flwyddyn Llesiant, Iechyd a Diogelwch (WHS) 2023-24 i'r Bwrdd a thynnu sylw at y materion canlynol. Roedd y pum Adolygiad Digwyddiad Difrifol (SIR) yn ymwneud â thri digwyddiad yn ymwneud â chontractwyr a dau yn ymwneud â staff; darparwyd adroddiadau a diweddariadau rheolaidd i Fforwm WHS. Roedd pum digwyddiad RIDDOR (Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau a Digwyddiadau Peryglus) i'w nodi a chwe Digwyddiad Amser Coll (LTIs); roedd hyn yn gynnydd bach o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Roedd adroddiadau ar ddamweiniau fu bron â digwydd wedi cynyddu, a oedd yn beth

cadarnhaol a oedd yn dangos newid mewn ymwybyddiaeth o ddiwylliant diogelwch. Roedd CNC wedi ail-gyflawni achrediad ISO 45001 ac eglurwyd bod yr achrediad yn gysylltiedig â rhai o'r buddsoddiadau mewn hyfforddiant a'r LMS. Tynnwyd sylw at fentrau lles drwy gydol y flwyddyn. Roedd gwaith cynllunio wedi dechrau gyda chyrrff cyhoeddus eraill ar brofi prosesau WHS drwy ymchwiliadau anffurfiol. Roedd hyfforddiant penodol ar iechyd a lles hefyd yn cael ei gynnal.

34. Croesawodd aelodau'r Bwrdd yr Adroddiad a chanmol y datblygiadau cadarnhaol yn niwylliant WHS y sefydliad. Cydnabuwyd mai dyma'r allwedd i atal digwyddiadau trwy ddysgu o ddamweiniau fu bron â digwydd. Amlygwyd y dull cadarn a gymerwyd gyda chontractwyr a'r gwaith cadarnhaol gyda Chytundeb Diogelwch y Diwydiant Coedwigaeth (FISA). Croesawyd yr LMS newydd a chefnogaeth ar gyfer datblygiad proffesiynol. Nodwyd y byddai hyn yn rhoi sicrwydd da i'r Bwrdd ynghylch hyfforddiant iechyd a diogelwch. Awgrymwyd y gellid darparu diweddariadau ar gyfer y Bwrdd cyfan yn ogystal â PCC.
35. Disgrifiodd y Prif Weithredwr y pryderon parhaus o ran y problemau parhaus ym Mro'r Sgydau, gan egluro y bu marwolaeth arall mewn lle tebyg i farwolaethau blaenorol. Roedd CNC yn parhau i weithio gyda'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol a phartneriaid y Parc Cenedlaethol, gan gydnabod yr her sylweddol i bob tîrffediannwr sydd â mynediad i'r cyhoedd. Nododd aelodau'r Bwrdd y marwolaethau diweddaraf gyda phryder. Cydnabuwyd yr heriau sy'n gysylltiedig ag ymddygiad sy'n cael ei ddylanwadu gan gyfryngau cymdeithasol a nodwyd trafodaethau blaenorol ar y mater hwn yn y Bwrdd, CSD a NAFW.

36. Cymeradwyodd y Bwrdd Adroddiad Blynyddol Llesiant, Iechyd a Diogelwch 2023-24.

CYMERADWYWYD: Adroddiad Blynyddol Llesiant, Iechyd a Diogelwch 2023-24

Eitem 9. Unrhyw fater arall

37. Ni chodwyd unrhyw faterion eraill.

Diwedd y Cyfarfod

Sesiwn Holi ac Ateb i'r Cyhoedd

38. Eglurodd y Dirprwy Gadeirydd fod CNC yn gweithio ar adolygu sut y gellid gwella ymgysylltiad â'r cyhoedd.
39. Nodwyd y cwestiynau a dderbyniwyd ymlaen llaw ar Ganolfannau Ymwelwyr a darllenodd y Dirprwy Gadeirydd y datganiad canlynol.
40. *Diolchwn i Gyfeillion Ynyslas am rannu eu cwestiynau gyda ni. Byddwch yn dawel eich meddwl bod y rhain wedi'u rhannu gyda'n Tîm Gweithredol ac aelodau'r Bwrdd. Yn anffodus, nid ydym mewn sefyllfa i ateb llawer ohonynt ar hyn o bryd oherwydd bod blaenoriaethu gwaith CNC yn parhau, ac mae'r Adolygiad o Ganolfannau Ymwelwyr yn rhan o'r ymdrech ehangach hon, wrth i ni ymateb i'r heriau ariannol sy'n wynebu CNC*

a'r sector cyhoeddus ehangach. Mae'r Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol a'r Coedwigoedd o amgylch canolfannau ymwelwyr yn safleoedd allweddol i ni. Nid oes amheuaeth ein bod am warchod y safleoedd hyn fel y gall natur ymadfer, ac rydym yn benderfynol y bydd mynediad cyhoeddus i'r safleoedd hyn yn cael ei gynnal.

41. Gwahoddwyd aelodau'r cyhoedd i gyfrannu at y sesiwn. Gwnaed sylwadau ar ran Grŵp Achub ein Canolfan Ynyslas, a oedd yn pwysleisio pryderon am ddiogelwch a'r effaith ar y gymuned pe bai'r Ganolfan Ymwelwyr yn cau. Nid oedd aelodau'r cyhoedd yn teimlo bod eu cwestiynau a godwyd mewn gohebiaeth wedi cael eu hateb yn ddigonol.
42. Rhoddodd y Prif Weithredwr ymateb, gan nodi bod Canolfannau Ymwelwyr yn rhan o broses flaenoriaethu ehangach ar draws CNC, a oedd â goblygiadau i'r holl staff yn CNC. Roedd hi'n bwysig felly i drafodaethau ddigwydd gyda staff yn gyntaf, er y deallwyd y byddai hyn yn anodd i'r aelodau hynny o'r cyhoedd oedd yn poeni'n fawr am ddyfodol y Canolfannau Ymwelwyr. Byddai CNC yn ymgysylltu â'r cyhoedd cyn gynted ag y gellid.
43. Diolchodd y Dirprwy Gadeirydd i bawb am eu cyfraniadau.

Diwedd y Cyfarfod Cyhoeddus

Log Gweithredu'r Bwrdd — Cyhoeddus

| Rhif Cam Gweithredu | Categori Cyfarfod | Dyddiad Cyfarfod | Rhif yr Eitem | Rhif paragraff | Noddwr y Papur | Cam gweithredu | Perchennog | Erbyn | Statws | Nodiadau/Diweddariadau |
|---------------------|-------------------|------------------|---------------|----------------|--|--|--|------------|----------------|---|
| 2 | Cyhoeddus | 27/01/2023 | 9 | 47 | Prys Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol CSD | CAM GWEITHREDU: Y Pennaeth Llywodraethu ac Ysgrifennydd y Bwrdd i ddatblygu sesiynau ymgysylltu â'r cyhoedd y Bwrdd sy'n seiliedig ar leoedd | Pennaeth Llywodraethu ac Ysgrifennydd y Bwrdd | 31/10/2024 | Parhaus | Datblygir opsiynau ar gyfer sesiynau ymgysylltu â'r cyhoedd y Bwrdd. Y dull i'w gytuno gyda'r Cadeirydd a'r Pennaeth Llywodraethu ac Ysgrifennydd newydd y Bwrdd. |
| 32 | Cyhoeddus | 17/07/2024 | 4 | 11 | Clare Pillman, Prif Swyddog Gweithredol | CAM GWEITHREDU: Adroddiad Rheoleiddio Blynyddol i'w gyflwyno i'r Bwrdd | Nadia De Longhi, Pennaeth Rheoleiddio a Thrwyddedu | 30/10/2024 | Parhaus | Ychwanegwyd at Ragolwg y Bwrdd ar gyfer mis Tachwedd |
| 33 | Cyhoeddus | 17/07/2024 | 7 | 31 | Clare Pillman, Prif Swyddog Gweithredol | CAM GWEITHREDU: Cyflwyno gwerthusiad Natur a Ni i'r Bwrdd | Russell De'Ath, Uwch Ymgynghorydd Arbenigol, Gweledigaeth 2050 | 04/09/2024 | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gynnwys yn eitem 10 ar agenda'r Bwrdd ar gyfer mis Medi |

Papur Bwrdd CNC

| | |
|--------------------------------|---|
| Dyddiad y cyfarfod: | 25 Medi 2024 |
| Teitl y papur: | Adroddiad y Prif Weithredwr (Sesiwn Gyhoeddus) |
| Cyfeirnod y papur: | 24-09-B10 |
| Cyflwynwyd y papur gan: | Clare Pillman, Prif Weithredwr |
| Diben | Gwybodaeth a thrafodaeth |
| Crynodeb | Mae'r papur yn rhoi diweddariad i'r Bwrdd ar faterion cyfredol. |

Cyflwyniad

- Fel bob amser, mae Sioe Frenhinol Cymru wedi bod yn un o uchafbwyntiau misoedd yr haf. Yn ystod tridiau yn y digwyddiad, cyfarfûm â phartneriaid a rhanddeiliaid o, ymhlith eraill, Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr (NFU), Undeb Amaethwyr Cymru (FUW), Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad (CLA), a Confor, a chydag Emma Palmer, Prif Swyddog Gweithredol newydd Cyngor Sir Powys. Fel bob amser, roedd nifer dda yn bresennol yn y cyflwyniadau amrywiol ar ein stondin, gan gynnwys dathliad o gyflawniadau ein prosiect LIFE a lansiad ein prosiect Adfer Gwy Uchaf. Helpodd ein model Shaun the Sheep i ddenu aelodau o'r cyhoedd. Roedd yn dda iawn gweld cydweithwyr o'r De-orllewin yn derbyn gwobrau yng Nghystadleuaeth Coetiroedd eleni; mae cael cydnabyddiaeth o'r fath am waith caled yn dra haeddiannol. Diolch i bawb a weithiodd mor galed i drefnu a chyflwyno ein presenoldeb yn y sioe – bu'n flwyddyn lwyddiannus arall, gyda wythnos yr un mor brysur yn Eisteddfod Rhondda Cynon Taf yn dilyn. Diolch hefyd i aelodau'r Bwrdd sy'n cymryd amser i fynychu a'n cefnogi ni yn y digwyddiadau hyn.
- Tua diwedd mis Awst, treuliais sawl diwrnod gyda thimau yn y Canolbarth, yn ymweld â Gwlad y Sgydau, gwaith cynaeafu coedwigaeth byw yng Nghoed y Rhaeadr, y traeth ymdrochi mewndirol sydd newydd ei ddynodi yn y Warren ger y Gelli Gandryll, ein swyddfeydd newydd yn Llandrindod, a fferm ieir. Bu'r ymweliad â Gwlad y Sgydau yn arbennig o ddefnyddiol wrth alluogi Gareth a minnau i gael y cyfle i drafod gyda'r tîm yr heriau sy'n ein hwynebu wrth reoli diogelwch y cyhoedd yno ac i drafod y gwaith pwysig i roi argymhellion yr Adolygiad o Ddiogelwch Ymwelwyr ar waith.

3. Ar ddiwedd mis Gorffennaf, cyfarfûm â Martin Nicholls o Gyngor Abertawe ynghylch Mynydd Cilfái a Phrosiect Skyline. Cyfarfûm hefyd â Chris Llewellyn a Tim Peppin o Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC), gyda chyfarfod llawn, chwe-misol CLILC yn dilyn ar ddechrau mis Medi. Roedd y mis hwn hefyd yn cynnwys cyfarfod â Derek Walker, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, a sesiwn dal i fyny â Llyr Griffiths AS, sy'n cadeirio Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith y Senedd.
4. Parhaodd yr ymgynghoriad ar yr Achos dros Newid drwy gydol yr haf a daeth i ben ar 13 Medi. Rwy'n ddiolchgar i'm cydweithwyr yn y Tîm Gweithredol a'r Tîm Arwain am fod ar gael yn ein swyddfeydd ac ar-lein yn ystod y cyfnod hwn, o gwmpas eu gwyliau, i siarad ag aelodau'r tîm ac i ateb cwestiynau. Rydym wedi parhau i gyfathrebu'n rheolaidd ar ffurf e-byst a galwadau briffio i'r holl staff, ochr yn ochr â chyfarfodydd ar lefel cyfarwyddiaeth a thîm a diweddariadau rheolaidd i'r wybodaeth ar ein tudalen fewnwyd bwrpasol.
5. Mae'r ymgynghoriad wedi ennyn llawer iawn o ymholiadau ac adborth gan gydweithwyr, ac rwy'n ddiolchgar i dîm y Rhaglen Newid, cydweithwyr Adnoddau Dynol a'n cynrychiolwyr undebau llafur am eu ffocws a'u hymdrechion wrth ymdrin â'r ymateb i'r ymgynghoriad. Er mwyn sicrhau bod ymgynghoriad ystyrlon yn digwydd, bydd yr Achos dros Newid yn cael ei adolygu eto gan y Bwrdd yn gynnar ym mis Hydref, yn hwyrach nag a gynigiwyd yn wreiddiol, gan ganiatáu amser ychwanegol ar gyfer trafodaeth gyda'r undebau llafur.
6. Yn ogystal, rydym wedi derbyn adborth a phryderon gan lawer o aelodau'r cyhoedd a grwpiau cymunedol lleol ynghylch y newidiadau arfaethedig i'n gwasanaethau. Mae ffocws sylweddol wedi bod ar y cynnig i roi terfyn ar wasanaethau arlwyio a manwerthu yn ein canolfannau ymwelwyr; mae Pwyllgor Deisebau'r Senedd wedi ystyried deiseb yn ymwneud â Chanolfan Ymwelwyr Ynys-las ac mae'n debygol y gofynnir am ddadl yn y Senedd oherwydd lefel diddordeb y cyhoedd. Rydym hefyd wedi cael pryderon ynghylch y bwriad i gau ein llyfrgell a'r posibilrwydd o golli arbenigedd bioamrywiaeth a thacsonomig gan ein timau. Mae ein tîm Cyfathrebu yn parhau i sicrhau bod pob gohebiaeth yn cael ymateb defnyddiol ac amserol.
7. Rydym wedi cadw mewn cysylltiad agos â'n timau nawdd a pholisi Llywodraeth Cymru (LIC) yn ystod y cyfnod hwn. Yn dilyn canlyniad etholiad y DU, manteisiwyd ar y cyfle i ysgrifennu at yr holl Aelodau Seneddol Cymreig newydd, a'r rhai sy'n dychwelyd, i dynnu sylw at amcanion ein cynllun corfforaethol a'n dull sy'n seiliedig ar le at ein gwaith, ac fe wnaethom ysgrifennu at bob Aelod o'r Senedd ac Aelod Seneddol Cymreig ar ddechrau ein hymgynghoriad ar yr Achos dros Newid, i ddarparu'r cyd-destun a'r amserlen ddisgwyliedig. Roedd newid Prif Weinidog Cymru ym mis Awst yn arwain at Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig yn cymryd y rôl ychwanegol o Ddirprwy Brif Weinidog. Gallai newid yn y Cabinet ym mis Medi olygu mwy o newid goruchwyliaeth ar gyfer rhai meysydd polisi.

Materion Strategol

Dal a Storio Carbon Padeswood

8. Mae prosiect Dal a Storio Carbon Padeswood yn fenter ddatgarboneiddio nodedig yn y DU, gyda'r nod o gyflawni'r gwaith sment carbon sero net cyntaf. Mae'r prosiect hwn ar gyfer lleihau allyriadau carbon o gynhyrchu sment yng Nghymru yn targedu gostyngiad trawiadol o 800,000 tonn o CO₂ bob blwyddyn. Mae Padeswood yn atebol am tua 60% o allyriadau sment Cymru.
9. Mae'r tîm Datgarboneiddio a Safonau wedi bod yn goruchwyllo'r broses o wneud cais am drwydded i sicrhau ei bod yn bodloni gofynion rheoleiddio llym ac yn cydfynd â'n hamcanion amgylcheddol. Mae'r cais am drwydded yn cael ei adolygu ar hyn o bryd.
10. Mae'r prosiect yn cynnwys integreiddio offer lefel uwch i ddal carbon gyda'r broses gweithgynhyrchu sment bresennol, gan ymgorffori atebion peirianeg gemegol blaengar. Mae'r rhain yn cynnwys gwella'r broses o leihau llygryddion, technegau gwahanu CO₂ arloesol gan ddefnyddio toddyddion amin, a chreu system dolen gaeedig i leihau'r effaith amgylcheddol. Mae'r broses Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol gysylltiedig yn arbennig o heriol oherwydd maint a newydd-deb y dechnoleg dan sylw, sy'n gofyn am gydweithredu ar draws amrywiol adrannau CNC i asesu'r effeithiau amgylcheddol posibl yn drylwyr.
11. Un o'r prif heriau yw rheoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r cemegau amin a ddefnyddir i ddal CO₂, sy'n gymharol newydd fel allyriadau aer ac sydd angen asesiad risg gofalus. Mae ein tîm yn cynnal gwerthusiadau trylwyr ac yn gweithredu strategaethau lliniaru effeithiol i sicrhau bod y prosiect yn cadw at yr holl safonau amgylcheddol wrth gydbwyso cymhlethdodau ansicrwydd dylunio ac amserlen dynn a arweinir gan y llywodraeth.
12. Mae'r prosiect yn cynrychioli buddsoddiad sylweddol (£600 miliwn) ac mae ar yr un lefel â rhai o'r datblygiadau diwydiannol mwyaf a welodd Cymru yn y blynyddoedd diwethaf. Bydd llwyddiant prosiect Dal a Storio Carbon Padeswood yn gofyn am ddulliau rheoleiddio arloesol a chydbwysedd gofalus o ddulliau rheoli risg, gan osod cynsail ar gyfer ymdrechion datgarboneiddio ar raddfa fawr yng Nghymru yn y dyfodol.

Adolygiad Prisiau Ofwat (PR24)

13. Mae proses Adolygiad Prisiau Ofwat yn bwysig i ni wrth bennu maint buddsoddiad cwmnïau dŵr mewn gwaith cynnal a chadw a gwelliannau amgylcheddol sy'n cefnogi cyflawni'r gwaith ar gyfer natur a lleihau llygredd o fewn ein cynllun corfforaethol.
14. Ym mis Gorffennaf, cyhoeddodd Ofwat ei benderfyniad drafft ar gyfer ymgynghoriad tan 28 Awst. Ynghyd â rhanddeiliaid eraill a'r cwmnïau dŵr, rydym wedi cyflwyno

sylwadau i Ofwat yn ceisio sicrhau camau gweithredu y mae mawr eu hangen ar gyfer yr amgylchedd, i leihau'r niwed y mae gweithrediadau cwmnïau dŵr yn ei wneud i'r amgylchedd ac i atal oedi wrth fuddsoddi ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Wrth wneud hynny, rydym yn cydnabod pa mor bell y mae'r cwmnïau dŵr wedi dod. Rydym hefyd yn croesawu gwaith timau ledled Cymru o ran darparu tystiolaeth o'r angen i weithredu, a chefnogaeth Bwrdd CNC wrth alw am newid sylweddol mewn buddsoddiad, camau gweithredu, a pherfformiad amgylcheddol gwell. Bydd Ofwat yn cyhoeddi ei benderfyniad terfynol ar 19 Rhagfyr.

15. Rydym bellach yn paratoi gyfer gweithredu, a byddwn yn troi ein gwaith llywodraethu tuag at sicrhau y cyflawnir y cynlluniau, y bydd y cwmnïau dŵr yn eu cyflwyno rhwng 1 Ebrill 2025 a 31 Mawrth 2030. Rydym yn cydnabod y bydd monitro darpariaeth y Rhaglen Amgylchedd Genedlaethol yn hollbwysig, a byddwn yn gweithio'n agos gydag Ofwat ar hyn.
16. Ar hyn o bryd, rydym yn gweithio ar fecanwaith ariannu ymlaen llaw gyda Dŵr Cymru (DCWW), gyda chymorth cydweithwyr Cyfreithiol, gyda'r nod o sicrhau bod y prif delerau a chytundebau ariannol ar waith erbyn diwedd mis Rhagfyr. Bydd hyn yn galluogi CNC i sicrhau adnoddau ychwanegol er mwyn bod yn barod i brosesu a phenderfynu ar tua 1,700 o drwyddedau cwmni dŵr yn ystod y cyfnod hwnnw.
17. Byddwn yn gweithio gyda'r cwmnïau dŵr, Llywodraeth Cymru ac aelodau Fforwm PR24 i fyfyrto ar y dull gweithredu a nodi gwersi i'w dysgu ar gyfer adolygiadau prisiau yn y dyfodol. Byddwn hefyd yn cyfathrebu am y manteision i adnoddau naturiol Cymru a ddaw yn sgil y buddsoddiad.

Rheoliadau Ailgylchu yn y Gweithle

18. Mae Llywodraeth Cymru yn arwain ar raglen uchelgeisiol o ddiwygiadau gwastraff trawsnewidiol fel yr amlinellwyd yn eu strategaethau Mwy nag Ailgylchu a Sero Net Cymru. Mae'r diwygiadau hyn yn newid y dirwedd rheoleiddio gwastraff yng Nghymru. Un enghraifft yw deddfwriaeth newydd Rheoliadau Gofynion Gwahanu Gwastraff (Cymru) 2023 (y Rheoliadau Ailgylchu yn y Gweithle), a ddaeth i rym ar 6 Ebrill eleni. Mae'r rhain yn ei gwneud yn ofynnol i bob eiddo annomestig, gan gynnwys busnesau, elusennau a sefydliadau trydydd sector, gyflwyno deunyddiau ailgylchadwy penodedig i'w casglu a'r diwydiant gwastraff i gasglu'r deunyddiau hynny ar wahân a'u cadw ar wahân ar ôl eu casglu. Y nod yw cynyddu ailgylchu o ansawdd uchel.
19. Mae'r rheoliadau newydd ar raddfa lawer mwy nag unrhyw reoliadau gwastraff eraill o fewn CNC, gan effeithio ar ddegau o filoedd o fusnesau a'r diwydiant gwastraff. Fel rhan o'n Rhaglen Diwygio Rheoleiddio Gwastraff, sefydlwyd tîm Ailgylchu yn y Gweithle newydd yn cynnwys deuddeg lleoliad addysg uwch ym mis Medi 2023. Mae'r lleoliadau wedi'u penodi tan fis Mawrth 2025 i gyflawni'r dyletswyddau newydd a'u bwriad oedd darparu cynllunio olyniaeth o fewn ein timau rheoleiddio gwastraff.

20. Y ffocws rheoleiddiol cychwynnol yw sicrhau bod busnesau'n ymwybodol o ofynion y Rheoliadau Ailgylchu yn y Gweithle newydd a darparu cymorth a chyngor i'w helpu i gydymffurfio. Mabwysiadwyd dull sy'n seiliedig ar dystiolaeth i nodi sectorau â blaenoriaeth sy'n cynhyrchu llawer o wastraff, a defnyddiwyd ystod eang o ddulliau rheoleiddio i dargedu'r sectorau amrywiol hyn ac asesu cydymffurfedd.
21. Ar y cyfan, mae'r darlun yn gadarnhaol ac mae'r mwyafrif o fusnesau yn gefnogol, yn ymwybodol o'r rheoliadau newydd ac yn cydymffurfio, neu wedi cymryd camau i gydymffurfio. Lle bu ymateb negyddol i'r gofynion newydd, mae hyn wedi newid yn bennaf i safbwynt cadarnhaol yn dilyn ymgysylltiad CNC. Mae tîm y Rhaglen Diwygio Rheoleiddio Gwastraff wedi gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru a WRAP (yr elusen lleihau gwastraff a chynaliadwyedd) i ddatblygu'r ddeddfwriaeth a'r canllawiau cysylltiedig a datrys materion ac ymholiadau, gan gynnwys rhoi cyflwyniad yn ddiweddar yn y Senedd ar gais Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig. Mae gwaith bellach ar y gweill gyda Llywodraeth Cymru ar y paratodau ar gyfer ail gam y rheoliadau, a fydd yn ymgorffori ysbytai a ffrydiau gwastraff eraill.

Adolygu'r Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol

22. Ym mis Gorffennaf, cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig fod Dr Susannah Bolton wedi'i phenodi'n gadeirydd allanol annibynnol i oruchwylio'r adolygiad statudol o Reoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021. Cyflwynwyd y rheoliadau ym mis Ebrill 2021 ac maent yn nodi dull Cymru gyfan o leihau effeithiau andwyol llygredd o weithgareddau amaethyddol ar ein hamgylchedd ac ar lesiant cenedlaethau'r dyfodol. Mae angen adolygu effeithiolrwydd y mesurau, ac os oes angen eu diwygio, o leiaf bob pedair blynedd, a bwriedir i'r dull gweithredu fod yn un o ymgysylltu a chydweithio â rhanddeiliaid. Dylai'r adroddiad terfynol a'r argymhellion fod ar gael i weinidogion Llywodraeth Cymru erbyn diwedd mis Mawrth 2025.

Bil Mesurau Arbennig Dŵr

23. Mae Llywodraeth y DU wedi cyflwyno'r Bil Mesurau Arbennig Dŵr gyda'r nod o fynd i'r afael â materion ansawdd dŵr a chynyddu pwerau rheoleiddiwr y diwydiant. Mae'r mesurau newydd arfaethedig yn ymateb i fethiannau eang canfyddedig gan y sector dŵr i fynd i'r afael â llygredd a achosir gan ollyngiadau carthffosiaeth a seilwaith sy'n heneiddio, ac yn adlewyrchu ymrwymiad maniffesto y Blaid Lafur i gryfhau'r gwaith o reoleiddio cwmnïau dŵr a chefnogi gwaith tymor hwy i lanhau afonydd, llynnoedd a moroedd.
24. Mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig wedi cytuno i ymestyn pob un ond un o'r mesurau newydd arfaethedig i Gymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio'n agos gyda DEFRA i ddatblygu'r Bil a bydd yn parhau i graffu ar y mesurau arfaethedig ac ystyried yr effeithiau posibl ar Gymru wrth i'r Bil fynd drwy Senedd y DU. Mae CNC wedi rhoi cyngor a thystiolaeth i swyddogion Llywodraeth Cymru i gefnogi'r broses.

25. Yn dilyn gosod y Bil Mesurau Arbennig Dŵr, mae disgwyl i'r Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig gyhoeddi cynlluniau ar gyfer adolygiad blwyddyn o hyd, a fydd yn arwain at ddiwygiadau mwy sylfaenol yn y sector dŵr. Dan arweiniad cadeirydd annibynnol, disgwylir i'r adolygiad hwn gychwyn ym mis Hydref, gyda'r canlyniad a'r argymhellion yn llywio datblygiad y Bil Diwygio'r Diwydiant Dŵr. Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi y gallai Cymru ddymuno bod yn rhan o'r adolygiad ehangach hwn, ond bydd hyn yn dibynnu ar gwmpas a manylion yr adolygiad, nad ydynt wedi'u cyhoeddi eto.

Cynllun Ffermio Cynaliadwy

26. Yn dilyn cyhoeddiad Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig am yr amserlen newydd ar gyfer cyflwyno'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy, ym mis Gorffennaf cyhoeddwyd datganiad ysgrifenedig pellach ochr yn ochr ag ymateb Llywodraeth Cymru i adborth yr ymgynghoriad. Ailadroddodd Ysgrifennydd y Cabinet nad oedd unrhyw benderfyniadau wedi'u gwneud am dyluniad y cynllun, ac mai dim ond pan fydd yn barod y byddai'n cael ei gyflwyno. Cyn lansio'r cynllun yn 2026, bydd cyfnod paratoi yn 2025, pan fydd cyngor a chymorth yn cael eu darparu i ffermwyr.
27. Bydd cynlluniau i gefnogi ffermwyr dros y flwyddyn nesaf yn cynnwys parhad y Taliad Cymorth Organig ac estyniad i Cyswllt Ffermio, sy'n cefnogi trosglwyddo gwybodaeth ac arloesi ym maes ffermio. Bwriad y Cynllun Adnoddau Naturiol Integredig newydd yw cefnogi partneriaethau sy'n canolbwyntio ar ffermwyr i ddarparu atebion ar sail natur ar draws tirwedd neu ddalgylch, neu ar raddfa Cymru gyfan. Gall cytundebau tir comin presennol Cynllun Cynefin Cymru gael eu hystreyn ar gyfer 2025 ac mae Cynllun Cynefin Cymru yn parhau i fod ar gael i ffermwyr unigol cymwys. Bydd ymarfer cadarnhau data gwirfoddol hefyd yn cael ei gynnal i ddarparu darlun mwy cywir o gynefin, gorchudd coed a choetir ar ffermydd, wrth baratoi ar gyfer cyflwyno'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy.
28. Ar ôl trafodaeth Bord Gron Gweinidogol yn Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru, cadarnhaodd Ysgrifennydd y Cabinet y byddai rheoli Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) yn cael ei gynnwys yn y taliad sylfaenol cyffredinol ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Seiliwyd y penderfyniad hwn ar adborth o'r ymgynghoriad a'r drafodaeth bord gron, ac roedd yn cydnabod ymdrechion ffermwyr i reoli safleoedd bywyd gwyllt a daearegol pwysicaf Cymru. Mae CNC yn mynychu'r cyfarfodydd Bord Gron Gweinidogol, sy'n adlewyrchu'r dull cydweithredol, partneriaeth a ddefnyddir gan Ysgrifennydd y Cabinet.

Materion Gweithredol

Cytundebau Rheoli Tir

29. Yn ddiweddar, mae CNC wedi derbyn £400,000 ychwanegol o gyllid cymorth grant gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2024/25 a swm tebyg ar gyfer 2025/26. Bydd y

cyllid ychwanegol hwn yn caniatáu i ni ymestyn hyd at 200 o gytundebau rheoli tir gyda pherchnogion a deiliaid safleoedd gwarchoddedig, gan eu cefnogi i reoli nodweddion arbennig eu safleoedd yn effeithiol ac felly cyfrannu at amcan llesiant mae natur yn gwella ein cynllun corfforaethol. Mae'r broses o ddyrannu a monitro'r cyllid hwn wedi dechrau, gyda'r bwriad o ddechrau cynnig estyniadau i gytundebau o fis Medi.

Cynllun Rheoli Dŵr Dyffryn Hafren

30. Mae Cynllun Rheoli Dŵr Dyffryn Hafren bellach yn cychwyn ar gyfnod o ymwybyddiaeth ac ymgysylltiad cyhoeddus. Defnyddir y cyfnod hwn i hysbysu rhanddeiliaid proffesiynol a chymunedol a cheisio eu barn a'u mewnbwn ynghylch y dulliau arfaethedig o reoli dŵr yn nalgylch uchaf afon Hafren. Mae'r cynigion yn seiliedig ar gyfuniad o ymyriadau peirianeg galed a rheoli llifogydd yn naturiol mewn nifer o safleoedd priodol ar draws y dalgylch.
31. Ym mis Medi, bydd gwefan a brand newydd y cynllun yn cael eu lansio. Hwn fydd y llwyfan ar gyfer rhannu gwybodaeth, newyddion a diweddariadau. Mae cyfres o ddigwyddiadau ymgysylltu wyneb yn wyneb ar y gweill ym mis Hydref, gan gynnwys digwyddiadau yn Aber-miwl, Llandysul, Cegidfa, y Trallwng, y Drenewydd a Llanllwchaearn. Mae rhanddeiliaid proffesiynol allweddol yn cynnwys y ddau undeb ffermio yng Nghymru. Trwy Grŵp Arweinwyr Strategol Cynllun Rheoli Dŵr Dyffryn Hafren, mae CNC yn helpu i lunio'r digwyddiadau hyn ochr yn ochr â Chyngor Sir Powys, Asiantaeth yr Amgylchedd a Chyngor Swydd Amwythig, i sicrhau eu bod yn darparu cyfleoedd ar gyfer y lefel gywir o ymgysylltu a sgwrsio i lywio datblygiad pellach y cynllun.

Gwasanaeth Gwybodaeth Rhybuddion Llifogydd

32. Ym mis Mehefin, fe aeth y Gwasanaeth Gwybodaeth Rhybuddion Llifogydd newydd i Gymru yn fyw. Mae'r prosiect mawr hwn, sy'n werth £5m, wedi'n galluogi i adael y Gwasanaeth Rhybuddion Llifogydd blaenorol a reolir gan Asiantaeth yr Amgylchedd a gosod y sylfaen ar gyfer gwasanaeth sydd wedi'i deilwra i anghenion cwsmeriaid yng Nghymru. Mae'r gwasanaeth newydd eisoes wedi cyflawni gwelliannau gan gynnwys negeseuon rhybuddio ac effeithlonrwydd prosesau sy'n rhoi llai o bwysau ar y swyddogion dyletswydd yn ystod digwyddiadau llifogydd, a'u caniatáu i ganolbwyntio ar y peryglon mawr. Mae hefyd yn mynd i'r afael â'r hyn a ddysgwyd o lifogydd mis Chwefror 2020. Mae angen mwy o waith a buddsoddiad i ddatblygu'r gwasanaeth ymhellach, ac rydym yn cynllunio ar gyfer hyn.

Diweddariad Withy hedge

33. Er nad yw'r safle tirlenwi wedi derbyn gwastraff ers canol mis Mai, rydym wedi parhau i ymweld â'r safle yn wythnosol. Rydym wedi bod yn monitro cynnydd ar welliannau i'r system casglu a rheoli nwy, a gwaith adeiladu ar Gell naw a'r lagwnau newydd i drin dŵr wyneb. Mae'r gweithredwr wedi buddsoddi'n sylweddol ar y safle ac wedi ymrwymo i welliannau pellach mewn seilwaith a gweithdrefnau gweithredu.

34. Fel rhan o'n hymweliadau rheoleiddio, rydym wedi parhau i gynnal asesiadau arogleuon yn y cymunedau cyfagos, ac wedi canfod dim arogleuon llygru oddi ar y safle sy'n deillio o'r safle tirlenwi ers 12 Mehefin. Mae amllder ein hasesiadau wedi lleihau yn ystod y mis diwethaf, mewn ymateb i ostyngiad yn yr adroddiadau arogleuon a dderbyniwyd. Ym mis Awst, cawsom rhwng sero a dim ond ychydig o adroddiadau bob dydd.
35. Mae partneriaid yn y Grŵp Ansawdd Aer a'r Grŵp Rheoli Digwyddiadau amlasiantaeth yn cydnabod y gall adroddiadau gan drigolion helpu i lywio graddau (gofodol a difrifoldeb) problemau arogleuon, ac y bydd hyn yn rhannol yn penderfynu yr ymdrechion i fonitro arogleuon. Mae hyn ar wahân i fonitro ansawdd aer, sydd bellach yn cynnwys y monitor sefydlog parhaus a leolir yn Ysgol Spittal, tua 1.5 cilometr o'r safle. Mae'r wybodaeth a gasglwyd gan y gwaith monitro yn galluogi lechyd Cyhoeddus Cymru i wneud dyfarniad gwybodus ar unrhyw effeithiau ar iechyd y cyhoedd sy'n deillio o weithgareddau ar y safle, er bod ffynonellau eraill o allyriadau ansawdd aer (e.e. tail amaethyddol) yn yr ardal leol a all effeithio ar y data a gasglwyd.
36. Mae'r gell wastraff newydd (Cell 9) wedi'i hadeiladu mewn tri cham is-gell llai fel a ganlyn: 9A, 9B a 9C. Mae Is-gell 9A wedi'i chwblhau a disgwylir y bydd y gwaith o adeiladu Is-gell 9B wedi'i orffen yn fuan. Cyn derbyn gwastraff, rhaid cyflwyno adroddiadau dilysu er mwyn sicrhau ansawdd y gwaith adeiladu i CNC. Rydym yn rhagweld y byddwn yn cael y sicrwydd ansawdd adeiladu ar gyfer 9A yn fuan ac rydym wedi cael gwybod y bydd yr adroddiad ar gyfer 9B yn dilyn ychydig wythnosau'n ddiweddarach.
37. Ar ôl ei dderbyn, mae gan CNC bedair wythnos i adolygu'r adroddiad sicrhau ansawdd adeiladu a naill ai cadarnhau ein bod yn fodlon neu ofyn am wybodaeth ychwanegol. Ystyrir ein bod yn fodlon os na fyddwn yn ymateb o fewn yr amserlen hon. O dan yr amod trwydded perthnasol, unwaith y bydd adroddiad sicrhau ansawdd adeiladu wedi'i dderbyn, mae'n bosibl y gall derbyn gwastraff ddechrau. Fodd bynnag, rydym wedi lleisio a bod yn dryloyw ynghylch y gwelliannau eraill y disgwylwn iddynt gael eu cwblhau cyn i'r broses hon ddechrau. Mae'r gweithredwyr wedi nodi, yn amodol ar ein bod yn cymeradwyo'r adroddiad sicrhau ansawdd adeiladu ar gyfer Is-gell 9A, y byddent yn ceisio ailddechrau derbyn gwastraff ar y safle ar ddiwedd mis Medi. Cyn hyn, rydym yn disgwyl i'r gweithredwyr roi gweithdrefnau derbyn wedi'u diweddarau i ni ar gyfer gwastraff (gan gynnwys mathau o wastraff), er mwyn atal y problemau a brofwyd yn gynharach eleni rhag digwydd eto.
38. Mae Grŵp Rheoli Digwyddiadau amlasiantaeth Withyhedge yn parhau i gyfarfod bob tair neu bedair wythnos, gyda gohebiaeth o'r cyfarfodydd hyn yn cael ei rhannu â phartion allanol. Mae cyfathrebu rhagweithiol yn ystod yr wythnosau diwethaf wedi'i leihau i alluogi staff CNC i ganolbwyntio ar y camau gorfodi parhaus. Rydym yn rhagweld y bydd y gwaith ymchwilio wedi'i gwblhau erbyn canol mis Hydref gyda staff yn cael eu cymryd all-lein i ganolbwyntio ar y gwaith hwn.

Kronospan

39. Mae tîm Rheoleiddio Diwydiant y Gogledd yn parhau i dderbyn nifer o adroddiadau am ddigwyddiadau a gohebiaeth gysylltiedig yn ymwneud ag arogleuon a llwch o safle Kronospan yn y Waun. Yr hydref hwn, byddwn yn gweithio gyda'r tîm Cyfathrebu i sefydlu 'gofod dinasyddion', sef gwefan bwrpasol lle gall CNC a Kronospan gynnwys diweddariadau ac atebion i gwestiynau cyffredin. Rydym hefyd yn annog Kronospan i chwarae rhan fwy rhagweithiol wrth ymdrin â'r materion hyn. Gobeithiwn y bydd y gwelliannau hyn yn rhoi mwy o wybodaeth a dealltwriaeth i'r cyhoedd o'r safle ac yn helpu i reoli nifer y cwynion a gyfeirir at CNC.

Prosiect Gordyfiant Algâu Afon Gwy

40. Mae Sefydliad Gwy ac Wysg wedi cyhoeddi adroddiad yn nodi cynnydd gyda'r prosiect Gordyfiant Algâu Afon Gwy, yn dilyn ymchwil gyda Phrifysgol Caerdydd, Asiantaeth yr Amgylchedd a Dŵr Cymru. Mae'r adroddiad yn nodi bod lefelau ffosffadau yn afon Gwy yn is na lefelau hanesyddol ac yn bennaf o fewn targedau Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA). Ystyrir ei bod yn annhebygol mai ffosffadau yw prif achos gordyfiant algâu, sy'n cael ei reoli gan dri math o ffosfforws a dau fath o nitrogen, ynghyd â ffactorau megis pori, infertebratau, lefelau golau'r haul, tymheredd a llif yr afon. Mae'r adroddiad yn argymhell mesurau rheoli llifogydd yn naturiol, plannu coed ar hyd glannau afonydd, a safonau cytunedig ar gyfer maethynnau heblaw ffosffadau.
41. Mae canfyddiadau cyffredinol yr adroddiad yn alinio â dealltwriaeth CNC o reoli afonydd a'i ddull o wneud hynny. Rydym yn cydnabod mai dim ond un dangosydd o gyflwr ecolegol yw ffosffadau, a bod adeiladwaith ac ansawdd cynefinoedd yn ffactorau hollbwysig. Mae ein dull o reoli afonydd yn cynnwys gwytnwch y dalgylch ehangach a mesurau sydd â'r nod o leihau mewnbynnau gwaddod a thymheredd y dŵr, sefydlogi llif afonydd, a gwella cynefinoedd ar gyfer ystod eang o rywogaethau afonol a daearol. Byddwn yn parhau i weithio gyda'r sefydliad, y gymuned ffermio a rhanddeiliaid eraill, gan ddefnyddio'r ymchwil newydd i dargedu ein gwaith ar hyd afon Gwy yn well.
42. Yn y cyfamser, mae ffosfforws yn parhau i fod yn ffactor risg difrifol ar gyfer pob math o ecosystemau dyfrol ac yn sbardun allweddol ewtroffigedd. Mae CNC yn dilyn canllawiau'r DU wrth osod safonau a chynnal gwaith monitro, a bydd yn parhau i ddefnyddio'r safon dechnegol gadarn hon, sydd â thystiolaeth dda yn sail iddi, hyd nes y bydd un arall ar gael.

Adolygiad Archwilio Cymru o'r Rhaglen Tai Fforddiadwy

43. Mae Archwilio Cymru wedi cynnal adolygiad o raglen tai fforddiadwy Llywodraeth Cymru i asesu cynnydd yn erbyn y targed o ddarparu 20,000 o gartrefi cymdeithasol cost isel i'w rhentu rhwng 2021 a 2026. Mae ei adroddiad yn cydnabod effaith materion ansawdd dŵr ar y rhaglen, yn enwedig yn dilyn cyflwyno targedau

ansawdd dŵr diwygiedig ar gyfer ffosforws mewn afonydd Ardal Cadwraeth Arbennig yn 2021. Bryd hynny, nodwyd gennym fod tua 60% o gyrff dŵr mewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig wedi methu â chyrraedd y targedau diwygiedig, a arweiniodd at awdurdodau cynllunio yn oedi neu wrthod caniatâd ar gyfer datblygiadau newydd a fyddai'n cynyddu'r dŵr gwastraff sy'n cael ei ollwng i afonydd.

44. Ers hynny, rydym wedi gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru, Dŵr Cymru ac awdurdodau cynllunio i gefnogi gostyngiadau mewn gollyngiadau ffosforws, a sicrhau y gellir gwneud penderfyniadau cynllunio wrth ddiogelu a gwella ansawdd dŵr. Er bod yr adroddiad yn nodi mai dim ond tua 9,000 o gartrefi fforddiadwy sydd wedi'u hadeiladu ers 2021, nid yw'r heriau o ran ansawdd dŵr yn cael eu hamlygu fel ffactor arwyddocaol.

Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith y Senedd

45. Mae Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith y Senedd yn cynnal ymchwiliad i atal a gwrthdroi colledion ym myd natur erbyn 2030. Fel rhan o'r ymchwiliad, gofynnwyd i CNC gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig a rhoi tystiolaeth lafar yng nghyfarfod y pwyllgor ar 3 Hydref. Bydd dwy sesiwn dystiolaeth yn cael eu cynnal am 9.30am a 10.40am, ac yn cael eu ffrydio'n fyw ar wefan y Senedd.
46. Yn dilyn y gwahoddiad cychwynnol, mynegodd y pwyllgor ddiddordeb mewn cynnal sesiwn atodol gyda chynrychiolwyr CNC i archwilio'r materion a godwyd yn ystod y bennod ddiweddar o *Y Byd ar Bedwar*, a'n hadroddiadau perfformiad diweddaraf ar Dŵr Cymru a Hafren Dyfrdwy. Bydd y sesiwn hon yn rhedeg o 11.50am ar 3 Hydref a bydd hefyd yn cael ei ffrydio'n fyw.

Materion Mewnol

System Rheoli Dysgu a Chanolfan Wybodaeth Newydd

47. Lanswyd y System Rheoli Dysgu a Chanolfan Wybodaeth newydd ar 1 Gorffennaf ac mae dros 1,000 o gydweithwyr wedi mynychu sesiynau hyfforddiant trosolwg i ddysgu am y cynnig newydd. Lanswyd y system gydag ystod eang o gyrsiau e-ddysgu, ac mae mwy o gyrsiau'n cael eu hychwanegu. Mae catalog cynhwysfawr i gefnogi'r Rhaglen Newid, gan gynnwys sesiynau galw heibio Adnoddau Dynol a llesiant, cyrsiau e-ddysgu, a recordiadau o'r galwadau diweddarau a gyflwynir gan ein Tîm Gweithredol. Mae'r adborth wedi bod yn hynod gadarnhaol am y system a'r ffordd y mae wedi'i gweithredu.
48. Byddwn yn lansio'r modiwl Perfformio ar 1 Ebrill y flwyddyn nesaf, er mwyn helpu i wella'r ffordd yr ydym yn rheoli ein proses Sgwrs a datblygu gyrfa.

Cynlluniau Arweinwyr y Dyfodol

49. Ein hymgeisydd llwyddiannus sy'n cynrychioli CNC yn Academi Arweinyddiaeth Cenedlaethau'r Dyfodol o fis Medi eleni yw Daniel Wood, Swyddog Asesu Amgylcheddol yn y tîm Asesu a Chyngor Amgylcheddol, sydd wedi'i leoli yn Ne Cymru.
50. Yr ymgeiswyr llwyddiannus CNC ar gyfer y Rhaglen Arweinwyr Coedwigaeth sy'n Dod i'r Amlwg yw Kate Boddington, Dylan Enoch a Jake Burton.

Cyfathrebu

Cyfathrebu Corfforaethol

51. Mae cefnogi'r Tîm Gweithredol a'r Tîm Arwain i ddatblygu cynnwys, canllawiau a deunyddiau cyfathrebu i arwain cydweithwyr drwy'r gwaith o adeiladu a chyflwyno'r ymgynghoriad ar yr Achos dros Newid wedi bod yn ffocws allweddol i'r timau Cyfathrebu, Digidol a Chyfieithu dros y cyfnod hwn. Mae hwn wedi bod yn faes gwaith sylweddol, gan sicrhau bod cydweithwyr yn gallu cymryd rhan yn yr ymgynghoriad a chael mynediad amserol at ganllawiau a gwybodaeth berthnasol.
52. Rydym hefyd wedi gweithio'n agos gyda chydweithwyr a phartneriaid i reoli enw da CNC yn allanol yn y cyfryngau, gan weithio o fewn terfynau'r hyn y gellir ei rannu yn ystod y cyfnod ymgynghori. Mae ymdrechion sylweddol wedi'u gwneud i sicrhau bod cydweithwyr sy'n gweithio mewn cymunedau lleol ac yn delio â rhwystredigaeth y cyhoedd ynghylch dyfodol arfaethedig ein harlwy hamdden yn gwybod bod systemau cymorth ar waith. Roedd hyn hefyd yn ganolbwynt i'n cyfathrebu mewnol yn dilyn yr achosion o aflonyddwch ar draws y DU, gan sicrhau bod cydweithwyr yn ymwybodol o'r sianeli cymorth iechyd meddwl a llesiant sydd ar gael iddynt.
53. Roedd ein presenoldeb yn Sioe Frenhinol Cymru ym mis Gorffennaf a'r Eisteddfod ar ddechrau mis Awst yn blatfform croeso i gysylltu â phartneriaid a'r cyhoedd. Darparodd ein harddangosfeydd a'n hamserlen o sgysiau atgyfnerthiad cryf o ehangder y gwaith cadarnhaol a wnawn yn ein cymunedau, a'r gwahaniaeth a wnawn.
54. Ffarweliwyd â Catrin Hornung ddiwedd mis Gorffennaf. Dros yr haf, bu Sarah Jennings yn gweithio yn ei rôl gyda chefnogaeth eraill yn y tîm Cyfathrebu, ond rydym yn bwriadu rhoi trefniadau dros dro mwy ffurfiol ar waith yn fuan.

Llygredd yn Cael ei Atal Hyd yr Eithaf

55. Roedd ffocws a chraffu rhaglenni materion cyfoes (*Y Byd ar Bedwar, Dispatches*) ar berfformiad rheoleiddio a gorfodi CNC yn her i enw da yn ystod y cyfnod hwn. Er bod y cyfyngiadau cyn yr etholiad wedi dylanwadu ar y graddau y gallem ymateb, fe wnaethom fuddsoddi amser i sicrhau bod cynhyrchwyr rhaglenni'n cael eu briffio'n

briodol ar ein rôl, ein cylch gorchwyl a'n proses orfodi, gan helpu i liniaru'r effeithiau ar ein henw da yn allanol a chyda chydweithwyr lle bo modd.

56. Roedd cyhoeddi'r adroddiadau perfformiad ar gyfer cwmnïau dŵr Cymru yn gyfle i gyflwyno ein hunain fel rheoleiddiwr cryf, gyda sylw yn y cyfryngau o ganlyniad yn tynnu sylw at y camau gorfodi yr ydym yn eu cymryd ac ymchwiliadau a allai arwain at erlyniadau. Roedd hyn hefyd yn berthnasol i'n hymateb i bryderon cymunedol ynghylch effeithiau llygredd posibl o Safle Tirlenwi Hafod a Kronospan. Cynorthwyodd y cyfathrebu am ganlyniadau llwyddiannus erlyniadau ar gyfer gwastraff, pysgota a llygredd amaethyddol yn ystod y cyfnod hwn i atgyfnerthu ymhellach effaith ein gwaith cydymffurfedd a gorfodi rheoleiddiol.
57. Mae ymdrech sylweddol yn parhau i reoli cyfathrebiadau o amgylch Safle Tirlenwi Withy hedge, gan weithio gyda phartneriaid i sicrhau bod cynlluniau trin yn cael eu hadolygu a bod cyhoeddiadau'n cael eu halinio, a manteisio ar gyfleoedd i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r gymuned leol am weithgarwch gorfodi.
58. Rhoddwyd sylw hefyd i reoli ac ymateb i ymholiadau'r cyfryngau am achosion o lygredd ar draethau ac mewn dyfroedd ymdrochi dros y cyfnod hwn, gyda'r cyfryngau'n cymryd diddordeb sylweddol yn ein hymchwiliadau i lefelau uwch o facteria a ganfuwyd yn y Warren ar afon Gwy, sef safle ymdrochi swyddogol cyntaf Cymru mewn afon.

Mae Natur yn Gwella

59. Roedd lansiad Prosiect Adfer Gwy Uchaf yn Sioe Frenhinol Cymru yn brawf cyhoeddus o'n hymrwymiad i arwain y ffordd a gweithio gyda phartneriaid i adfer afon Gwy.
60. Roedd diddordeb eang yn y cyfryngau yn effeithiau'r pla o gimychiaid yr afon yn afon Irfon, gyda'r tîm Cyfathrebu yn defnyddio gwybodaeth ein cydweithwyr arbenigol i friffio'r cyfryngau a chynnal cyfweiliadau. Gwnaeth cyhoeddi canlyniadau ein harolwg morloi cyntaf o'r awyr fel rhan o'n cefnogaeth i'r Wythnos Forol hefyd ennyn diddordeb eang yn y cyfryngau cenedlaethol a rhanbarthol a dangos sut rydym yn defnyddio tystiolaeth i lywio ein gwaith mewn ardaloedd gwarchoddedig.
61. Mae ein dyletswydd i reoli a diogelu byd natur yn Niwbwrch, a'n gwaith gyda phartneriaid a'r gymuned yno, wedi bod ar flaen y gad yn ein cyfathrebu ynghylch sut rydym yn rheoli effaith y mewnlifiad o ymwelwyr â'r safle dros yr haf. Mae hwn yn fater sensitif ac rydym wedi gweithio'n galed ochr yn ochr â Chyngor Sir Ynys Môn i reoli negeseuon.
62. Roedd y cyfnod hwn hefyd yn gyfle i fyfrio ar lwyddiant prosiectau Twyni Byw LIFE a Chyforgorsydd Cymru a'r cyfraniad y mae pob un wedi'i wneud i adfer byd natur. Amlygwyd ein gwaith i gefnogi adfer rhywogaethau hefyd yn y gwaith parhaus o hyrwyddo prosiectau Rhwydweithiau Natur a gwaith ein timau amgylchedd lleol.

Mae Cymunedau'n Gallu Gwrthsefyll Newid yn yr Hinsawdd

63. Ym mis Gorffennaf, cafwyd lansiad meddal llwyddiannus o'r Gwasanaethau Gwybodaeth Rhybuddion Llifogydd. Er y bydd y prif gyfathrebu allanol am y gwasanaeth yn digwydd dros dymor yr hydref, rydym wedi trefnu cyflwyniadau yng nghyfarfodydd grwpiau tactegol a chyfathrebu Fforymau Lleol Cymru Gydnerth i sicrhau bod aelodau'n ymwybodol o'r diweddariadau ac yn gallu rhannu negeseuon yn lleol. Cyflwynwyd gweminar fewnol i gydweithwyr hefyd.
64. Gwnaeth ein gwaith rheoli perygl llifogydd ennyn diddordeb cyfryngau'r Almaen yn ystod y cyfnod hwn. Mae profiad diweddar y wlad o lifogydd difrifol wedi ysgogi cyfres ar radio'r Almaen sy'n canolbwyntio ar sut mae gwledydd eraill yn rheoli erydiad arfordirol ac effeithiau newid hinsawdd. Cymerodd ein Pennaeth Rheoli Perygl Llifogydd ran mewn cyfweiliad ar gyfer y gyfres yn amlygu sut rydym yn gweithio i reoli perygl llifogydd yng Nghymru.

Rhagolwg

Dydd Iau 3 Hydref – Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd

Dydd Mercher 9 Hydref – Pwyllgor Ystad Tir

Dydd Mercher 16 Hydref – Galw am Ddiweddariadau gan y Bwrdd

Dydd Iau 17 Hydref – Pwyllgor Ardaloedd Gwarchoddedig

Dydd Mawrth 22 Hydref – Pwyllgor Cynghori ar Dystiolaeth

Dydd Iau 24 Hydref – Dyddiad wedi'i gadw i gynnal Diwrnod Datblygu'r Bwrdd

Dydd Mercher 20 Tachwedd / Dydd Iau 21 Tachwedd – Cyfarfod mis Tachwedd y Bwrdd

Dydd Llun 25 Tachwedd / Dydd Mawrth 26 Tachwedd – Ffair Aeaf Frenhinol Cymru

Dydd Iau 5 Rhagfyr – Pwyllgor Cyllid

Dydd Mawrth 10 Rhagfyr – Pwyllgor Pobl a Chwsmeriaid

Dydd Mercher 11 Rhagfyr – Galw am Ddiweddariadau gan y Bwrdd

Dydd Gwener 13 Rhagfyr – Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg

Papur Bwrdd CNC

| | |
|--------------------------------|---|
| Dyddiad y cyfarfod: | 25 Medi 2024 |
| Teitl y Papur: | Adroddiad Bwrdd y Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd (FRMC). |
| Cyfeirnod Papur: | 24-09-B11 |
| Noddwyd y papur gan: | Dr Peter Fox, Cadeirydd y Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd |
| Paratowyd y papur gan: | Ysgrifenyddiaeth Bwrdd CNC |
| Cyflwynwyd y papur gan: | Dr Peter Fox, Cadeirydd y Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd |
| Pwrpas y papur | Gwybodaeth |
| Crynodeb | Rhoi diweddariad ar y Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd ar gyfer mis Gorffennaf. |

Cefndir

- Dosbarthwyd y papurau ar gyfer sylwadau/cymeradwyaeth trwy ohebiaeth oherwydd y cyfyngiadau amser sylweddol ar aelodau'r Bwrdd ar gyfer meysydd gwaith eraill. Mae crynodeb o'r papurau ac unrhyw sylwadau a dderbyniwyd wedi'u hamlinellu isod.
- Er mwyn cael rhagor o fanylion, gall holl aelodau'r Bwrdd weld papurau'r pwyllgorau drwy borth Diligent.

Adroddiad Diweddarau ar Reoli Perygl Llifogydd

- Cyflwynwyd Adroddiad diweddarau a oedd yn amlygu meysydd gwaith allweddol i'r Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd (FRMC) er gwybodaeth. Roedd hyn yn cynnwys Rhagolwg Llifogydd tri mis cyfredol y Swyddfa Dywydd, adolygiad Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru (CSCC) o lifogydd, y Gwasanaeth Gwybodaeth Rhybuddion Llifogydd newydd, yr Adroddiad Blynyddol Rheoli Perygl Llifogydd a Nodyn Cyngor Technegol 15 (TAN15).
- Diolchodd y Cadeirydd i'r tîm am gyflawni'r prosiect Gwasanaeth Gwybodaeth Rhybuddion Llifogydd yn llwyddiannus o fewn yr amserlen ac o fewn y gyllideb. Bu'r grŵp hefyd yn trafod pwysigrwydd buddsoddiad hirdymor yn y gwasanaeth, gan CNC a Llywodraeth Cymru, er mwyn gallu ymdopi â newid hinsawdd (a mwy o lifogydd) ac anghenion defnyddwyr, ac er mwyn gwella a datblygu'r gwasanaeth yn barhaus.

5. Amlygwyd gwaith Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru (CSCC) gan gynnwys y negeseuon allweddol a drafodwyd drwy Grŵp Cyngori'r Prosiect. Byddai cynrychiolwyr CSCC yn cael eu gwahodd i gyfarfod mis Hydref i drafod eu gwaith.

Diweddariad y Rhaglen Gyfalaf Rheoli Perygl Llifogydd

6. Rhoddwyd diweddariad ar sefyllfa bresennol Rhaglen Gyfalaf Rheoli Cyfalaf Llifogydd (FRM) CNC ar gyfer 2024-25 a chynlluniau ar gyfer y dyfodol o fewn y cynllun tymor canolog. Roedd hyn yn cynnwys crynodeb o ddyraniad y gyllideb a'r sefyllfa bresennol a ragwelwyd.
7. Amlygwyd y risg, yr archwaeth risg a'r cyfleoedd ynghyd â'r cerrig milltir a'r canlyniadau posibl. Darparwyd diweddariadau prosiect allweddol gan gynnwys Stryd Stephenson, Sandycroft, Porthmadog, y prosiect Gwasanaeth Gwybodaeth Rhybuddion Llifogydd a'r prosiect Telemetreg. Hefyd darparwyd crynodeb o'r cymeradwyaethau sydd i ddod a thaenlen Rhaglen Gyfalaf FRM.
8. Darparwyd crynodeb o'r papur, a gofynnodd y Cadeirydd am ymweliad safle â'r Foryd a Phwllheli gan fod y rhain yn brosiectau allweddol sydd ar y gweill. Amlygwyd bod cyllideb y Rhaglen Gyfalaf yn unol â'r proffil a thrafodwyd y risgiau o orwario a thanwario. Nododd FRMC y papur a diolchwyd i'r tîm am eu penderfyniad da a'u rheolaeth ofalus o'r Rhaglen Gyfalaf.

Papur Newid Stryd Stephenson

9. Anfonwyd papur newid Cynllun Llifogydd Stryd Stephenson i FRMC i'w gymeradwyo oherwydd cost prosiect oes gyfan ddiwygiedig o £25.2m. Roedd y papur yn amlinellu'r trefniadau llywodraethu a chefnidir y Prosiect. Amlinellwyd y rhesymau dros y cynnydd mewn costau a thros geisio cymeradwyaeth FRMC.
10. Byddai'r cynnydd yn cael ei ariannu gan gyllideb cyfalaf FRM a byddai'n cael ei broffilio i fod yn fforddiadwy dros y blynyddoedd ariannol gyda Chynllunio Strategol a Buddsoddi a Chyllid.
11. Nodwyd bod y Pwyllgor Cyllid eisoes wedi cymeradwyo'r cynnydd. Gofynnwyd i FRMC ddarparu sylwadau a sicrwydd ar y cynnig a nodi'r newidiadau a nodwyd i Gynllun Atal Llifogydd Stryd Stephenson.
12. Cymeradwyodd FRMC y papur newid a chyllideb y prosiect newydd ar gyfer Cynllun Llifogydd Stryd Stephenson.

Achos Amlinellol Strategol Pwllheli

13. Cyflwynwyd yr Achos Amlinellol Strategol ar gyfer Cynllun Rheoli Llifogydd Pwllheli i'r Pwyllgor. Cyflwynodd yr Achos Amlinellol Strategol asesiad cychwynnol o'r peryglon llifogydd i'r ardal ac yn sefydlu achos dros newid. Gofynnwyd am gymeradwyaeth i

symud y prosiect ymlaen i'r cam nesaf (Achos Busnes Amlinellol) lle byddai asesiadau manylach yn cael eu cynnal i nodi a rhoi hyder i hyfywedd yr opsiwn sy'n cael ei ffafrio ar gyfer buddsoddi.

14. Cymeradwyodd FRMC Achos Amlinellol Strategol Pwllheli a'r dilyniant i'r Achos Busnes Amlinellol, gyda'r ddealltwriaeth mai datblygu'r opsiynau prosiect oedd hyn ar hyn o bryd ac nid ymrwymiad i ateb penodol. Nodwyd yr amrywiaeth eang yng nghyfanswm y costau posibl dros oes y prosiect a chadarnhawyd y byddai hyn yn lleihau yn ystod datblygiad yr Achos Busnes Amlinellol.

Papur Bwrdd CNC

| | |
|----------------------------|---|
| Dyddiad y cyfarfod: | 25 Medi 2024 |
| Teitl y papur: | Trosolwg o'r Pwyllgor Ystâd Tir (LEC). |
| Cyfeirnod y Papur: | 24-09-B12 |
| Papur wedi ei noddi gan: | Yr Athro Calvin Jones, Cadeirydd LEC |
| Papur wedi'i gyflwyno gan: | Yr Athro Calvin Jones, Cadeirydd LEC |
| Pwrpas y papur | Er gwybodaeth |
| Crynodeb | Darparu trosolwg o gyfarfod y Pwyllgor Ystâd Tir ar 18 Gorffennaf 2024. |

Cefndir

- Mae'r diweddariad hwn i'r Bwrdd mewn perthynas â chyfarfod y Pwyllgor Ystâd Tir (LEC) ar 18 Gorffennaf 2024. Mae papurau a chofnodion y cyfarfodydd hyn ar gael i aelodau'r Bwrdd eu gweld ar Diligent.

Trafod Risgiau a Materion Cyfredol

- Trafododd LEC y newidiadau a wnaed i helpu CNC i gyflawni'r Cynllun Corfforaethol a sut y gellid cefnogi staff pan oedd newidiadau'n cael eu rhoi ar waith, yn dilyn ymgynghoriad yr Achos dros Newid.

Risg a Sicrwydd y Grŵp Busnes Stiwardiaeth Tir a Masnachol

- Darparwyd crynodeb o Gofrestr Risg y Grŵp Busnes Stiwardiaeth Tir (LSBG) a nodwyd, oherwydd pryderon ynghylch y diffyg symudiad mewn sgoriau risg, y byddai proses ddeinamig newydd i reoli risg yn cael ei rhoi ar waith.
- Rhodddwyd trosolwg o'r cofrestrau risg Masnachol, a oedd yn y broses o gael eu hadolygu. Nodwyd y gallai fod yn fuddiol ychwanegu cyflymder y risgiau at y cofrestrau risg a chael ymagwedd fwy integredig er mwyn rheoli canlyniadau anfwriadol. Awgrymodd LEC y gallai CNC ganolbwyntio ar y cyfleoedd yn ogystal â'r risgiau; gallai

fod yn fuddiol hefyd adrodd am newyddion cadarnhaol i'r Bwrdd, ochr yn ochr â'r risgiau a'r materion.

Ymatebion LEC i Ymholiadau'r Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg (ARAC).

5. Trafododd LEC yr ymholiadau a godwyd yn y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg (ARAC) ac awgrymodd y gellid cynnwys crynodeb i grynhoi'r wybodaeth am ddibynadwyedd Cynllun Sicrwydd Coetiroedd y DU (UKWAS) fel ffordd o sicrhau gweithgarwch CNC ar lawr gwlad, mewn cyd-destun cenedlaethol a lleol.

Unrhyw fater arall

6. Byddai'r Pwyllgor yn cyfarfod yn bersonol ar gyfer y cyfarfod ar 9 Hydref.

Papur Bwrdd CNC

| | |
|-------------------------|--|
| Dyddiad y cyfarfod: | 25 Medi 2024 |
| Teitl y Papur: | Diweddariad Fforwm Rheoli Tir Cymru (WLMF). |
| Cyfeirnod y Papur: | 24-09-B13 |
| Noddwyd y papur gan: | Yr Athro Rhys Jones, Cadeirydd WLMF |
| Paratowyd y papur gan: | Bronwen Martin, Cynghorydd Arbenigol: Amaethyddiaeth |
| Cyflwynwyd y papur gan: | Yr Athro Rhys Jones, Cadeirydd WLMF |
| Pwrpas y papur | Gwybodaeth |

Fforwm Rheoli Tir Cymru (WLMF)

- Cynhelir cyfarfodydd Fforwm Rheoli Tir Cymru (WLMF) bedair gwaith y flwyddyn, ac maent yn rhoi cyfle i Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) a sefydliadau eraill sy'n aelodau o WLMF rannu gwybodaeth, nodi buddiannau cyffredin a chydweithio mewn ffordd gydweithredol ar faterion rheoli tir strategol.

[Cyfoeth Naturiol Cymru - Fforwm Rheoli Tir Cymru \(WLMF\)](#)

Diweddariad

Cyfarfod 24 Mehefin 2024

- Cynhaliwyd cyfarfod WLMF ar 24 Mehefin 2024. Roedd yr agenda'n cynnwys cyflwyniad ar y Rhaglen Adfer Afonydd gan Suzanne Hearn a Rhodri Powell, CNC. Rhoddwyd trosolwg i'r grŵp o'r rhaglen a chrynodeb o rai o'r prosiectau. Adfer afonydd yw adfer ffurfiau a phrosesau naturiol afonydd sy'n creu ac yn cynnal cynefinoedd a rhywogaethau ffisegol, a thrwy hynny gynnal ecosystemau dŵr croyw gwydn. Mae'n golygu cymryd agwedd sy'n ystyried y rhyngweithio rhwng coridor yr afon a'r dalgylch ehangach.
- Cafodd holl aelodau WLMF gyfle hefyd i ofyn am Ddiweddariadau CNC a hefyd rhannu diweddariadau gan eu sefydliadau eu hunain.

Cyfarfod 9 Medi 2024

- Cynhaliwyd cyfarfod diweddaraf WLMF ddydd Llun 9 Medi 2024. Cynhaliwyd y cyfarfod hwn wyneb-yn-wyneb yn Swyddfa Llywodraeth Cymru, Aberystwyth. Roedd yr

agenda'n cynnwys cyflwyniad ar Natur am Byth gan John Clark, CNC, a chyflwyniad ar y Rhaglen Tirweddau Dynodedig gan Keith Davies, CNC. Cafodd holl aelodau WLMF gyfle hefyd i ofyn am Ddiweddariadau CNC a hefyd rhannu diweddariadau gan eu sefydliadau eu hunain.

5. Mae cyfarfod nesaf WLMF wedi'i drefnu ar gyfer dydd Llun 9 Rhagfyr.
6. Unwaith y bydd cofnodion y cyfarfod wedi'u hadolygu a'u cytuno'n ffurfiol gan yr aelodau, cânt eu cyhoeddi ar dudalen WLMF ar wefan CNC.

Is-grŵp WLMF ar Lygredd Amaethyddol

7. Prif ddiben yr Is-grŵp WLMF hwn yw nodi cyfleoedd i ddileu llygredd amaethyddol yng Nghymru tra'n cynnal sector ffermio ffyniannus gan ddilyn pum thema allweddol (cyngor ac arweiniad, ymagwedd wirfoddol, rheoleiddio, arloesi a buddsoddi), a gweithio ar y cyd â amrywiaeth o randdeiliaid amaethyddol ac amgylcheddol.

[Cyfoeth Naturiol Cymru - Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru \(WLMF\) ar Lygredd Amaethyddol](#)

Diweddariad

8. Cafodd y cyfarfod a drefnwyd ar gyfer 15 Gorffennaf ei ganslo.
9. Cynhelir cyfarfod nesaf Is-grŵp WLMF ar 16 Medi a bydd ganddo thema 'dip defaid'. Bydd hwn yn gyfarfod ar y cyd ag aelodau Fforwm Rheoli Dŵr Cymru a Fforwm Pysgodfeydd Cymru.
10. Unwaith y bydd cofnodion y cyfarfod wedi'u hadolygu a'u cytuno'n ffurfiol gan yr aelodau, cânt eu cyhoeddi ar dudalen Is-grŵp WLMF ar wefan CNC.

Adolygiad Fforwm CNC

11. Efallai eich bod yn ymwybodol bod CNC wedi cychwyn adolygiad o fforymau a sut rydym yn ymgysylltu â'n rhanddeiliaid. Mae'n bwysig i CNC fod profiad aelodau gwerthfawr ein fforwm/gweithgor yn cael ei gynnwys yn yr adolygiad hwn. Rydym yn cynnal arolwg (ar Citizen Space) er mwyn iddynt allu rhoi adborth.
12. Gwahoddir aelodau o'r fforymau a'r gweithgorau canlynol i gymryd rhan yn yr arolwg:
 - Fforwm Rheoli Tir Cymru (WLMF)
 - Is-grŵp WLMF ar Lygredd Amaethyddol
 - Pwyllgor Cynghori Rhanbarthol ar Goedwigaeth
 - Fforwm Mynediad Cenedlaethol Cymru (NAFW)
 - Fforwm Rheoli Dŵr Cymru (WWMF)

- Fforwm Pysgodfeydd Cymru (WFF)
- Grwpiau Pysgodfeydd Lleol WFF
- Fforwm Bioamrywiaeth a Gwydnwch Ecosystemau (a elwir hefyd yn Fforwm WEL)
- Tasglu Gwella Ansawdd Afonydd Cymru

13. Mae'r arolwg ar hyn o bryd yn mynd trwy gamau olaf ei ddatblygiad a bydd yn cael ei lansio maes o law.

Papur Bwrdd CNC

| | |
|-------------------------|---|
| Dyddiad y cyfarfod: | 25 Medi 2024 |
| Teitl y papur: | Fforwm Pysgodfeydd Cymru, Mehefin 2024 |
| Cyfeirnod y papur: | 24-09-B14 |
| Noddwyd y papur gan: | Yr Athro Steve Ormerod, Cadeirydd Fforwm Pysgodfeydd Cymru |
| Paratowyd y papur gan: | Ben Wilson, Prif Gynghorydd Pysgodfeydd; Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu, Tîm Rheoli Adnoddau Naturiol |
| Cyflwynwyd y papur gan: | Yr Athro Steve Ormerod, Cadeirydd Fforwm Pysgodfeydd Cymru |
| Diben y papur | Er gwybodaeth |

Cefndir

- Mae Fforwm Pysgodfeydd Cymru yn cyfarfod deirgwaith y flwyddyn ac yn rhoi cyfle i randdeiliaid pysgodfeydd a chyrrff anllywodraethol rannu tystiolaeth a chyfleoedd ar gyfer cydweithio i sicrhau bod pysgodfeydd yn cael eu rheoli'n gynaliadwy yng Nghymru.
- Cylch gorchwyl y grŵp yw fel a ganlyn:
 - Cynrychioli'r ystod o randdeiliaid sydd â buddiant yn adnoddau pysgodfeydd dŵr croyw ac ymfudol Cymru ac yng ngwaith Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ac eraill i gynnal, gwella a datblygu pysgodfeydd mudol a dŵr croyw yng Nghymru.
 - Darparu cyngor strategol i CNC sy'n adlewyrchu barn buddiannau pysgodfeydd. Llywio cyngor CNC i Lywodraeth Cymru (LIC), gan gynnwys datblygu polisi a strategaeth yn ymwneud â physgodfeydd.
 - Adolygu perfformiad pysgodfeydd CNC a gwaith cysylltiedig i sicrhau bod genweirwyr a buddiannau pysgodfeydd yn deall yn eglur bod incwm trwyddedau gwialen a chyllid arall yn cael eu defnyddio yn y modd mwyaf effeithiol i gefnogi'r gwaith o gyflawni dyletswydd pysgodfeydd statudol CNC.
 - Ystyried yr effaith ecolegol, fiolegol ac economaidd materion newydd a materion sy'n dod i'r amlwg sy'n effeithio ar ein pysgodfeydd.

- e. Helpu i ledaenu gwybodaeth oddi wrth CNC a mannau eraill i fuddiannau genweirio a physgodfeydd.
- f. Darparu adborth clir oddi wrth fuddiannau genweirio a physgodfeydd i CNC a hwyluso darparu gwybodaeth i'r buddiannau hynny.
- g. Nodi cyfleoedd ar gyfer gweithio mewn partneriaeth a chyllid newydd.
- h. Cefnogi gwaith i sganio'r gorwel am ddatblygiadau, cyfleoedd a risgiau newydd sy'n ddisgwyliedig, a chodi ymwybyddiaeth o faterion ehangach yn ymwneud â rheoli pysgodfeydd dŵr croyw a mudol – er enghraifft, pysgodfeydd morol.

Diweddariad

3. Cynhaliwyd y cyfarfod diweddaraf yn rhithwir ar 27 Mehefin 2024.
4. Roedd y cyfarfod yn cynnwys yr eitemau a ganlyn:
 - a. **Diweddariad ar ddigwyddiadau (Ilinell gymorth):** Cyflwyniad ar sut mae CNC yn prosesu ac yn ymateb i ddigwyddiadau pysgodfeydd a dŵr.
 - b. **Diweddariad ar adar sy'n bwyta pysgod:** Cyflwyniad a thrafodaeth – Dave Charlesworth, Prif Gynghorydd Arbenigol, ar weithredu argymhellion y Grŵp Cynghori Annibynnol ar Adar sy'n Bwyta Pysgod.
 - c. **Ailgyflwyno'r Eryr Cymru:** Cyflwyniad gan Sophie-Lee Williams (Ymddiriedolaeth Durrell) ar gynigion i gyflwyno eryrod cynffonwyn i dde Cymru.
 - d. **Cynllun Gweithredu Eogiaid a Brithyllod y Môr:** Cyflwyniad gan Ben Wilson ar gynnydd parhaus canlyniadau'r cynllun gweithredu presennol yn ogystal â diweddariad ar gynlluniau i adolygu'r cynllun gweithredu yn seiliedig ar asesiad o'r pwysau.
 - i. Yn gyffredinol, mae CNC ar y trywydd iawn i gyflawni'r rhan fwyaf o'r camau gweithredu yn y cynllun gweithredu presennol.
 - ii. Cyflwynwyd gwaith gennym ar yr asesiad o bwysau a fydd yn llywio camau gweithredu'r cynllun gweithredu yn y dyfodol (gweler NASCO – Sefydliad Cadwraeth Eogiaid Gogledd yr Iwerydd isod).
 - e. **Sefydliad Cadwraeth Eogiaid Gogledd yr Iwerydd (NASCO):** Adborth o agenda a phapurau cyfarfod blynyddol NASCO. Gan CNC (Ben Wilson) a chorff anllywodraethol (Samuel Jones – yr Ymddiriedolaeth Genweirio).
 - i. Newyddion allweddol i Fwrdd CNC eu nodi yw'r cynnig i gynnal Cyfarfod Blynyddol 2025 ar NASCO yng Nghaerdydd yn wythnos 2 Mehefin 2025. Rydym yn croesawu'r cyfle hwn i arddangos y problemau y mae eogiaid yn eu hwynebu yng Nghymru a sut y mae CNC a phartneriaid yn mynd i'r afael â hyn. Mae CNC yn gweithio

gyda Llywodraeth Cymru a DEFRA ar drefniadau lletya ac rydym yn cydlynu ymweliadau safle cysylltiedig â phartneriaid.

- ii. Dangosodd yr adolygiad blynyddol o gynlluniau gweithredu cenedlaethol fod CNC (ynghyd ag Asiantaeth yr Amgylchedd) ar y trywydd iawn ar hyn o bryd ac yn cyflawni mesurau arfaethedig yn ein cynlluniau gweithredu ar gyfer Cymru a Lloegr.
- iii. Adroddiadau NASCO yn y dyfodol. Yn dilyn adolygiad o amserlenni ac amcanion strategol NASCO, bydd angen i CNC gyflwyno cynllun gweithredu newydd, y tro hwn ar gyfer Cymru yn unig, erbyn mis Mehefin 2026. Yn y cyfamser, mae angen i bob awdurdodaeth gyflwyno Aseiad Pwysau Eogiaid yn 2025, a fydd wedyn yn llywio eu cynllun gweithredu. Fel y soniwyd uchod, mae CNC eisoes wedi dechrau ar hyn.
- iv. Canllawiau stocio NASCO: Cyflwynodd NASCO ganllawiau stocio diwygiedig sy'n cefnogi polisi presennol CNC i beidio ag ymgymryd â stocio lliniarol neu at ddibenion cynyddu stociau, neu ganiatáu i hyn ddigwydd. Yn benodol, maent yn datgan fel a ganlyn:

Mae'r dystiolaeth a gynhyrchwyd o bedwar degawd o ymchwili i effeithiau stocio ar boblogaethau eogiaid yr Iwerydd wedi ysgogi'r consensws gwyddonol canlynol, sef lle mae integredd (h.y. naturioldeb esblygiadol ac ecolegol) y stoc wyllt yn flaenoriaeth reoli, na ddylid ystyried stocio fel mesur adfer.

Fodd bynnag, maent hefyd yn dod i'r casgliad bod:

... yna rhai sefyllfaoedd cyfyngedig lle gallai stocio fod o fudd i eogiaid gwyllt. Gall stocio fod yn fuddiol lle mae poblogaeth eogiaid gwyllt yr Iwerydd wedi'i dinistrio neu mewn perygl uniongyrchol o ddiflannu.

Rydym wedi awgrymu gwaith pellach i egluro a fyddai CNC yn ystyried bod unrhyw fentrau deorfeydd yn ddiogel neu'n briodol, a sut. Bydd hyn yn cael ei lywio gan ganllawiau trawsleoli'r Undeb Rhyngwladol dros Gadwraeth Natur (IUCN).

- f. **Strategaeth Gallu Pysgodfeydd i Wrthsefyll y Newid yn yr Hinsawdd:** Cyflwyniad gan Ben Wilson ar benderfyniad CNC i ddatblygu strategaeth pysgodfeydd newydd ar gyfer CNC.

Mae hwn yn ddiweddariad mawr ei angen ar strategaeth bresennol "Agenda ar gyfer Newid" 2014 ac mae'n angenrheidiol i ddangos sut y bydd CNC yn cyflawni ei ddyletswydd statudol i "gynnal, gwella a datblygu pysgodfeydd eogiaid, brithyllod, llysywod, llysywod pendoll, brwyniaid Conwy a physgod dŵr croyw" o fewn cyd-destun yr argyfwng hinsawdd a natur ac yn unol â chynllun corfforaethol CNC.

Mae'r strategaeth ddrafft arfaethedig yn cyflwyno gweledigaeth ar gyfer pysgodfeydd Cymru:

Mae gan Gymru ecosystemau dŵr croyw, aberol a morol iach a gwydn sy'n cynnal poblogaethau pysgod ffyniannus ac amrywiol gyda physgodfeydd a reolir yn gynaliadwy. Bydd y pysgodfeydd hyn yn caniatáu i fwy o bobl o fwy o gefndiroedd gysylltu â byd natur, gan roi cymhelliad pwerus i'w hadfer a'u cynnal er mwyn i genedlaethau'r presennol a'r dyfodol eu mwynhau.

Rydym hefyd yn cynnig tri amcan strategol newydd:

1. Mae poblogaethau pysgod a physgodfeydd Cymru yn gallu gwrthsefyll y newid yn yr hinsawdd.
2. Mae stociau sy'n prinhaus ac sy'n agored i niwed yn cael eu hamddiffyn a, lle bo modd, maent ar y trywydd iawn i'w hadfer.
3. Mae mwy o bobl yn gysylltiedig â natur trwy bysgota.

Rydym yn bwriadu ymgynghori ar y strategaeth hon yn ehangach yn yr hydref, a defnyddio'r amcanion strategol hyn i lywio'r gwaith o flaenoriaethu gweithgareddau pysgodfeydd CNC o 2025 ymlaen.

- g. **Ymgynghoriad Gweithio gyda'n Gilydd ar Gynlluniau Rheoli Basnau Afonydd:** Trafodaeth gan Ruth Johnston, Prif Gynghorydd Arbenigol: Sicrhau bod aelodau'n ymwybodol o'r ymgynghoriad sydd ar ddod ac sy'n cau ar 20 Rhagfyr. <https://ymgyngori.cyfoethnaturiol.cymru/evidence-policy-and-permitting-tystiolaeth-polisi-a-thrwyddedu/gweithiogydangilydd/>
- h. **Papur diweddarau Fforwm Pysgodfeydd Cymru:** Roedd y papur hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am faterion pysgodfeydd cyfredol o amgylch Cymru. Mae copi o'r papur diweddarau ar gael drwy e-bostio Fisheries.Wales@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
- Diweddariad ar werthu trwyddedau gwialen
 - Diweddariad ar bysgota yng Nghymru
 - NASCO
 - Diweddariad ar yr adolygiad o adar sy'n bwyta pysgod
 - Gwangod
 - Eitemau newyddion diweddar
 - Cynllun i helpu pysgod i symud yn naturiol trwy gored Rhydaman
 - A allwch chi ein helpu ni i ddarganfod pysgod cynhanesyddol yn ein hafonydd?
 - Mae afon Cleddau yn elwa o ddau brosiect adfer cynefinoedd afon
 - Cwblhau cynllun i roi bywyd newydd i afon Pelenna
 - Bydd ffensys yn darparu buddion mewn dalgylch afon
 - Mae ymladdwyr jac y neidiwr allan yn mynd i'r afael â rhywogaethau ymledol ar hyd afon Teifi
 - Mae'r prosiect yn helpu i gyflwyno buddion lluosog i fyd natur a ffermio yn Sir Fynwy
 - Wythnos Rhywogaethau Goresgynnol – Ysgrifenyddiaeth Rhywogaethau Anffrodorol Prydain Fawr

- Dal a rhyddhau!
- Thermomedr dŵr: Pysgota neu beidio â pysgota am eogiaid a brithyllod y môr

9. Rhagolwg

Bydd eitemau Fforwm Pysgodfeydd Cymru a awgrymir yn y dyfodol yn cynnwys y canlynol:

- Adolygiad asesu stoc eogiaid
- Strategaeth Gallu Pysgodfeydd i Wrthsefyll y Newid yn yr Hinsawdd
- Ranunculus

Dyddiad y cyfarfod nesaf: 28 Tachwedd 2024

Papur Bwrdd CNC

| | |
|-------------------------|--|
| Dyddiad y cyfarfod: | 25 Medi 2024 |
| Teitl y Papur: | Diweddariad Fforwm Mynediad Cenedlaethol Cymru (FfCC). |
| Cyfeirnod Papur: | 24-09-B15 |
| Noddwyd y papur gan: | Geraint Davies, Cadeirydd FfMCC |
| Paratowyd y papur gan: | Carys Drew, Ysgrifenyddiaeth NAFW (Cynghorydd Arbenigol: Hawliau Tramwy Cyhoeddus a Rhwydweithiau) |
| Cyflwynwyd y papur gan: | Geraint Davies, Cadeirydd FfMCC |
| Pwrpas y papur | Gwybodaeth |

Cefndir

- Mae Fforwm Mynediad Cenedlaethol Cymru (FfCCC) yn fforwm anstatudol sy'n dod â rhanddeiliaid ynghyd o sefydliadau'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector sydd â diddordeb ac arbenigedd mewn mynediad awyr agored a hamdden yng Nghymru.
- Prif ddibenion FfCCC yw:
 - Helpu i wella ansawdd a chynyddu mynediad i gefn gwlad ac arfordir Cymru, ac ymestyn y cyfleoedd o fwynhad a hamdden awyr agored cyfrifol i bawb, o ran cynaliadwyedd amgylcheddol ac addysg.
 - Cydweithio fel rhwydwaith rhanddeiliaid, gan feithrin dealltwriaeth, a rhannu gwybodaeth ac arfer da; cefnogi gwireddu manteision hamdden a mynediad i'r awyr agored yng Nghymru
 - Cefnogi CNC yn ei nod o sicrhau bod mwy o bobl yn cymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden awyr agored ac yn elwa arnynt yn amlach
- Mae CNC yn darparu'r Cadeirydd (Geraint Davies) a'r Ysgrifenyddiaeth (Carys Drew). Mae'r Dirprwy Gadeirydd yn cael ei enwebu o blith yr aelodaeth (Ruth Rourke, Sefydliad Hawliau Tramwy Cyhoeddus a Rheoli Mynediad). Mae Dr Rosie Plummer, Bwrdd CNC hefyd yn cefnogi ac yn mynychu cyfarfodydd.
- Mae Fforwm Mynediad Cenedlaethol Cymru yn cyfarfod deirgwaith y flwyddyn. Mae cyfarfodydd fforwm yn agored i arsylwyr ac yn cael eu cynnal yn gyhoeddus ond nid ydynt yn gyfarfodydd cyhoeddus. Pan fo angen, gall y Cadeirydd sefydlu gweithgorau i ystyried materion penodol ac adrodd i gyfarfodydd dilynol, ni chynhelir cyfarfodydd gweithgorau yn gyhoeddus.

5. Mae'r Ysgrifenyddiaeth yn coladu cyfraniadau ysgrifenedig cyn pob cyfarfod. Mae hyn yn rhoi cyfle i aelodau, CNC a LIC rannu gwybodaeth fanwl. Mae'r cyfraniadau ysgrifenedig ar gyfer pob cyfarfod, ynghyd ag agendâu a nodiadau cryno o'r cyfarfodydd yn cael eu cyhoeddi ar wefan CNC: [Cyfoeth Naturiol Cymru / Fforwm Mynediad Cenedlaethol Cymru](#)

Diweddariad

6. Cynhaliwyd cyfarfod diweddaraf Fforwm Mynediad Cenedlaethol Cymru ar 2 Gorffennaf 2024. Cynhaliwyd y cyfarfod wyneb yn wyneb ond ymunodd rhai mynychwyr ar-lein. Mae pob eitem ar yr agenda yn cynnwys amser ar gyfer cwestiynau a thrafodaeth.
7. Clywodd y Fforwm gan Julia Mansbridge, CNC am Gynlluniau Rheoli Basn Afon a'r ymgynghoriad Gweithio Gyda'n Gilydd a agorwyd yn ddiweddar. Anogwyd aelodau'r Fforwm i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad.
8. Cyflwynodd Jen Newman, cynrychiolydd Dŵr Cymru ar y Fforwm, waith am rôl atyniadau ymwelwyr ar gyfer Dŵr Cymru a'i weledigaeth ar gyfer canolfannau iechyd a lles ac ymgysylltu ag ymwelwyr. Rhannodd Jen y polisi a oedd yn datblygu a'r cynllun peilot cysylltiedig â nofio dŵr agored a dipio dŵr oer ac i orffen rhannodd waith a chynlluniau ar gyfer y dyfodol yng Nghwm Elan.
9. Dosbarthwyd cyfraniadau ysgrifenedig cyn y cyfarfod ac anogwyd yr aelodau i adolygu'r rhain ac i gysylltu â chyfranwyr yn uniongyrchol gyda rhagor o gwestiynau. Nododd Sarah Smith, Llywodraeth Cymru, fod Ysgrifennydd y Cabinet wedi derbyn nodiadau briffio ar ddiwygio mynediad yn ddiweddar. Cadarnhaodd Sarah nad oedd Ysgrifennydd y Cabinet wedi gwneud unrhyw benderfyniadau eto ynglŷn â'r rhaglen ddiwygio mynediad a'i flaenoriaethau wrth symud ymlaen a'i fod wedi gofyn am ragor o sesiynau briffio.
10. Cyflwynodd Carys Drew, Ysgrifennydd CNC, bapur Edrych i'r Dyfodol FfCC a oedd wedi'i ddsbarthu ymlaen llaw. Pwrpas hyn yw cynnwys aelodau wrth gynllunio eitemau, pynciau a themâu cyfarfodydd y dyfodol. Anogwyd yr aelodau i gyfrannu at ddatblygu'r ddogfen weithio hon, gan ddarparu syniadau ar gyfer pynciau a threfn blaenoriaeth.
11. Rhoddwyd gwybod i'r Fforwm fod CNC wedi cyhoeddi adolygiad o'r holl Fforymau y mae CNC yn ymgysylltu â nhw ac yn eu hwyluso. Cawsant eu cynghori y byddai arolwg yn cael ei anfon atynt i gasglu eu barn a chawsant eu hannog i ymateb i hyn.
12. Gwnaeth yr Ymgyrch dros Barciau Cenedlaethol gais am aelodaeth i'r Fforwm. Yn dilyn cyflwyniad gan Gareth Ludkin, Uwch Swyddog Polisi, bu'r aelodau'n ystyried a oedd y sefydliad wedi bodloni'r gofynion yng Nghylch Gorchwyl y Fforwm. Roedd consensws ymhlith yr aelodau yn y cyfarfod i dderbyn y cais ac mae Ymgyrch y Parciau Cenedlaethol wedi cael gwybod fod eu cais wedi bod yn llwyddiannus a'u bod erbyn hyn yn aelodau o'r Fforwm.

13. Mae dyddiadau cyfarfodydd 2024/25 wedi'u cynllunio fel a ganlyn: 5 Tachwedd (ar-lein), 4 Mawrth 2025 (ar-lein).

Papur Bwrdd CNC

| | |
|-------------------------|--|
| Dyddiad y cyfarfod: | 25 Medi 2024 |
| Teitl y Papur: | Adroddiad Perfformiad Cyllid |
| Cyfeirnod Papur: | 24-09-B17 |
| Noddwyd y papur gan: | Rachael Cunningham, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol |
| Paratowyd y papur gan: | Rob Bell, Pennaeth Cyllid; Mark Collins, Rheolwr Cyllid Busnes |
| Cyflwynwyd y papur gan: | Mark Collins, Rheolwr Cyllid Busnes |
| Pwrpas y papur: | Cymeradwyo (newid yn y rhagolwg) /Trafodaeth (Perfformiad Ariannol) |
| Crynodeb | <p>Cymeradwyo:</p> <p>Newid yn y rhagolwg diweddaraf o £268.9m i £269.0m a ragwelir.</p> <p>Craffu ar:</p> <p>Perfformiad ariannol hyd at ddiwedd mis Gorffennaf 2024.</p> |

Cefndir

- Mae'r adroddiad Perfformiad Cyllid yn rhoi manylion ar gynnydd ar draws y gwahanol fathau o incwm, gwariant a rhaglenni. Mae Atodiad A yn crynhoi'r negeseuon allweddol mewn cysylltiad â:
 - Newid yn y rhagolwg cyllideb o'i gymharu â'r rhagolwg blaenorol a gymeradwywyd (mis Mai).
 - Perfformiad hyd at ddiwedd mis Gorffennaf 2024.

Risgiau a chyfleoedd

- Nodir risg yn y Gofrestr Risg Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol ar gyfer 'yn y flwyddyn gwario'. Mae hyn hefyd yn cysylltu â'r risg strategol "Methiant i gyflawni

sefydlogrwydd ariannol". Ar gyfer y flwyddyn ariannol hon, mae risgiau gorwariant wedi'u lliniaru gan gamau gweithredu a gymerwyd gan y Tîm Gweithredol a chyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru.

3. Y goblygiadau ehangach yw:

- (a) **Cyllid:** Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud â pherfformiad ariannol CNC. Nodir risg o fewn Cofrestr Risg y Gyfarwyddiaeth Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol.
- (b) **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:** Mae pob elfen o'r gyllideb yn cyfrannu at un neu lawer o'n Hamcanion Lles.

Y Camau Nesaf

4. Bydd y Tîm Gweithredol yn parhau i fonitro'r prif risgiau o fewn y gyllideb.
5. Cynhyrchir yr adroddiad hwn bob dau fis ar gyfer y Bwrdd a'r Tîm Gweithredol.

Argymhelliad

6. Bwrdd i gymeradwyo newidiadau i'r rhagolwg diweddaraf, o £268.9m i £269.0m.
7. Bwrdd i graffu ar berfformiad ariannol hyd at ddiwedd mis Gorffennaf 2024.

Mynegai o Atodiadau

Atodiad A — Adroddiad Perfformiad Ariannol




NRW Board – 26 September 2024

Financial Performance Report – July 2024

Content and Key Messages

| Update will cover: | Messages: |
|---|--|
| 1. Update on the latest forecast changes as at July 2024 compared to the opening budget. | 1. The overall forecast has increased by £0.1m, mainly due to additional commercial income and Grant in Aid / Grants (£0.8m & £0.3m respectively) offset by a reduction in external funding (£1.2m). The increase in commercial income is for additional wind energy income & habitat management work at Pen Y Cymoedd. The increase in Grant in Aid / Grants was mainly due to additional funding allocated by WG for land management agreements (£0.4m). The external funding reduction is due to a change in the multi-year profile of projects within the LIFE programme. That income will be deferred for those LIFE projects to future years. |
| 2. Financial Performance as at July 2024. | 2. Expenditure at the end of July equates to £69.1m against a planned spend of £69.4m, an underspend to date of £0.3m. This is mainly due to underspend on non staff costs predominantly linked to Land Stewardship activities across Operations (£0.3m) and EPP (£0.1m), and ICT license costs within Finance & Corporate Services (£0.2m). These are offset by overspend within EPP in Evidence (£0.2m). The income position is ahead of profile by £1.2m due to commercial timber and charge income (£0.7m & £0.5m respectively) being ahead of expectation at this stage. Timber income has shown a positive start to the year with both volume and price per tonne greater than expected. An increase to the timber forecast would reduce the additional £2m support that is part of the agreement with WG. The latest timber forecast is being reviewed for sign off by the Head of Sustainable Commercial Development. |
| 3. Update on the plan to balance in year budgetary pressures. | 3. There is a page in the report where we set out the contingencies and over-programming we are holding. There are several contingencies - pay award, general (for potential redundancies), precautionary (for corporate costs recharge being re-forecasted). We also hold over-programming allocations - central (prudently set at £1m, previous years set at £3m+) and in the main programmes (Flood, NaCE and NRW2030). These have reduced considerably since the last report and we are only over-programmed by £1.3m across all the main programmes. We have taken into consideration the lessons learnt from the Local Partnerships review in managing over-programming within programmes - though we have acknowledged there is an increased risk of underspend as a result. The budget for Case For Change (CFC) will be transferred in August (£0.5m) from the central contingency budget of £2m. There is also £1m of grant received for the Peatlands project that is likely to be returned to Welsh Government as we will not be able to use it and it cannot be re-allocated as it's not been provided from our sponsoring department's budget. |
| 4. Endorse change in forecast since the last revised forecast was agreed - from £268.9m to £269.0m. | 4. The main risks and opportunities to our budget this year, currently are: (Risk) - achievement of the salary budget savings target (see point 5 below) (Risk) - Ty Cambria exit strategy, the position is progressing, with new legal representation acting on our behalf but we still await the Section 18 report from Cooke and Arkwright which will allow us to finalise the financial impact. (Risk) - emerging pressure on electricity and maintenance costs within Operations, primarily linked to flood assets and pumping stations. A review is currently underway to determine the budget shortfall and the mitigating actions. (Risk) - We still await the pay remit from WG which will allow us to have meaningful discussions with the Trade Unions about the level of pay award for this financial year. Until we have that clarity there will remain a risk whether we have sufficient budget cover. An update was taken to the People & Customer Committee (PCC). (Risk / Opportunity) - levels of over-programming, which have been much more prudently set. Risks of overspend should now be fully mitigated but there is a risk of underspend. (Opportunity) - WG are also in discussion with UK government about funding for the additional Civil Service Pension scheme costs this year, which we have absorbed into our budget. If that is successful, it's possible that could be allocated to us. (Opportunity) - we are in discussion with the Commercial team about a potential small increase in our retainable income budget this year following discussions with the operators of the Cefn Croes site on the unit price that was applied by them which we reported a significant reduction in March / April. Whilst there are a number of significant variables that need to be managed - at this stage, we do not need to take any further actions other than we have indicated in this report (for e.g. recruitment control and liaison with WG over the pay situation, determining the Ty Cambria exit strategy). |
| 5. An update on the potential risks & opportunities. | 5. The opening staff budget deficit stood at £9.3m. The current recruitment controls have generated "core" post savings at the end of July of £2.4m, however, current projections show an expected deficit of £1.7m against the £9.3m target at year end, which will need to be funded from the contingency budget (£1.5m) or other in year savings. Whilst we hold a contingencies budget, this is also a source of funding for redundancies. We do hold another contingency budget but this will be a limited source of funding. |

Financial Performance – Income Forecast



Charges

Charge income forecast has increased by £0.1m in relation to EPR charges.

Commercial

Commercial income has increased by £0.8m. This is due to additional income for the Pen Y Cymoedd Habitat Management Plan (£0.3m) and additional Wind Energy income (£0.3m surrenderable, £0.1m retainable).

European & Other External

European and other external income has reduced by £1.2m due to a reduction in the LiFE project programme. The income will be deferred into future years for use on the LiFE programme.


Grant in Aid

Grant in Aid / WG grants has increased by £0.3m, following an additional allocation by WG for Land Management Agreements (£0.4m), NaCE Programme (£0.1m) and a number of smaller WG Grants (£0.2m), which is offset by a reduction in Coal Tip Safety (£0.3m) & Invasive Non Native Species (INNS) (£0.1m) work.

Use of Reserves

The use of reserves remains static from the last reporting period. The increase in EPR income has reduced the draw on reserves, which is offset by an increase required for other charge funded posts.

Financial Performance – Expenditure Forecast



Staff

Staff budgets have increased by £0.5m, split between additional WG Grant funding (£0.1m), charge funded posts (£0.2m) and a movement from NRW contingencies (£0.2m).

Due to the continued recruitment control measures, staff budgets have reduced by a further £1.3m. However, the latest forecast shows a deficit £1.7m against the £9.3m target. The £1.7m would be funded from the contingency budget. Both these budgets are within the 'staff' category, so there is no net impact on the graph.

Non Staff

